# Y DINESYDD

Ebrill 2024 Papur Pobl Caerdydd a'r Fro Rhif 486 £1.50


## Agoriad Swyddogol Ysgol Groes-wen
tud. 6 a 7







## Eisteddfod Rhanbarth Cynradd Caerdydd a'r Fro
tud. 22

# Y DINESYDD

**Golygydd:**
**Hefin Mathias**

***Golygydd Mai***
***Manon Phillips***

Cyfraniadau erbyn **27 Ebrill** at:
manonph@googlemail.com
15 Birchfield Crescent, Parc Victoria,
Caerdydd, CF5 1AE
07876 068498

Y Digwyddiadur:
Yr Athro E Wyn James
JamesEW@caerdydd.ac.uk
16 Kelston Road, Caerdydd, CF14 2AJ
029 20628754

Hysbysebion:
Iestyn Davies
iestynd@gmail.com
15 Birchfield Crescent, Parc Victoria,
Caerdydd, CF5 1AE
07876 068498

Tanysgrifiadau:
Gwilym Dafydd (dros dro)
eirianagwilym@gmail.com
4 Coryton Rise, Yr Eglwys Newydd,
Caerdydd, CF14 7EJ
029 20657108

Prif Ddosbarthwr:
Arthur Evans
Yr Eglwys Newydd.
aloevans@icloud.com
029 20623628

**www.dinesydd.cymru**
Cyhoeddir gan Bwyllgor y Dinesydd.
Nodir hawl y golygyddion i gwtogi
ar erthyglau yn ôl y gofyn.

Argraffwyr:
Serol Print, Castell-nedd
Cysodydd: Dr Eirian Dafydd

Ariennir yn rhannol gan Lywodraeth Cymru

Y Cyfryngau Cymdeithasol
Twitter: @DinesyddCdydd
Facebook:
www.facebook.com/YDinesydd

## Tanysgrifiadau 2024-2025

Diolch yn fawr iawn i bawb a danysgrifiodd erbyn diwedd mis Mawrth. Mae ychydig dros 200 wedi gwneud neu aildanysgrifio yn achos y mwyafrif. Tua 250 oedd y cyfanswm hwn y llynedd.




Hyd yma manteisiodd 10 ar y ffordd newydd o dalu am gopïau digidol, sef trwy gyfrwng y linc ar wefan *Y Dinesydd* - dinesydd.cymru. Dyma'r ffordd symlaf a chyflymaf o bob dull. Unwaith y byddwch wedi rhoi eich manylion i mewn, dim ond dau neu dri clic fydd angen arnoch i gwblhau'r broses. Mae'r rhai a fanteisiodd ar y dull hwn yn gweld y broses yn un rhwydd a chyflym iawn. Diolch yn fawr i Ela Pari Huws am osod i fyny a gweinyddu'r dull yma.

Mae llawer ohonoch yn talu trwy'r banc ar ddechrau mis Ebrill a gall fod yn eithaf her i Arthur a minnau i wybod pwy yw pwy! Dyle pawb erbyn hyn fod yn talu o leiaf £15, felly os gwelwch ambell i £8, £10 neu £12 ar eich datganiadau banc bydd angen i chi godi eich tanysgifiad.

Y mae llenwi ffurflen tanysgrifio yn ein helpu i'ch adnabod. Yn amlwg rydym angen gwybod os ydych eisiau copi caled neu ddigidol a sut a phryd yr ydych wedi talu a sut y dymunwch dderbyn eich copi. Mae'n syndod sawl ateb gwahanol sydd i'r uchod.

Yn y byd sydd ohoni mae pob tanysgrifiad unigol yn bwysig a diolch yn fawr am eich cefnogaeth a'ch cyd-weithrediad.

Diolch i Nia Parsons sydd bellach yn dosbarthu copïau ym Mhenarth.

Am flynyddoedd gwnaeth Eiry Palfrey waith gwych wrth olygu un rhifyn o'r *Dinesydd* yn flynyddol, ac o ganlyniad fe gafodd Y Fro gryn sylw. Os oes rhywun yno a all gyflawni gwaith tebyg i Eiry, hoffem glywed gennych. Hyfryd hefyd fyddai cael rhywun o'r Fro ar bwyllgor *Y Dinesydd*. Cofiwch fod *Y Dinesydd* yn bapur bro i Gaerdydd a'r Fro.

*Gwilym Dafydd*
*Swyddog Tanysgrifiadau*

## Siopau lle gwerthir *Y Dinesydd*

**CABAN**, Pontcanna
**CAFFI BLOC**, Parc Fictoria
**CAFFI FFLOC**, Heol Ddwyreiniol y Bontfaen
**CANT A MIL**, 100 Whitchurch Rd.
**DERI STORES**, Rhiwbeina
**GRIFFIN BOOKS**, Penarth
**PAPERWEIGHT**, 22 Wellfield Road
**SIOP FACH CAERDYDD**, Arcêd Frenhinol
**Y FELIN**, Yr Eglwys Newydd
**VICTORIA FEARN GALLERY,** Rhiwbeina

# Colofn G.R.



*"Gydag Ebrill pwy na chwardd?"*

Gobeithio eich bod i gyd wedi cofio troi'r clociau ymlaen awr ar ddiwedd y mis diwethaf! Erbyn hyn dan ni yn y pedwerydd mis o 2024 yn barod a newydd ddathlu'r Pasg. Mae'r Gwanwyn yn y tir go iawn bellach a'r wlad yn edrych yn hardd hefo miloedd o Gennin Pedr yn tyfu ymhobman. Mae'r bardd Eifion Wyn yn ei delyneg i fis Ebrill yn dweud "Cân mwyalchen yn yr ardd/Rhwng y blagur ar y perthi/ Gydag Ebrill pwy na chwardd?/Byr yw'r gawod – hwy yw'r glesni". Gobeithio bod hynny'n wir wrth i chi ddarllen geiriau'r bardd a bod y glaw wedi cilio bellach yn arbennig gan fod mis Chwefror eleni wedi bod y mis gwlypaf a chynhesaf ers dechrau cofnodi'r tywydd!

Ers y rhifyn diwethaf o'r *Dinesydd* dan ni wedi ffarwelio ag un o lewion Cymdeithas yr Iaith a ymgyrchodd am chwarae teg i'r iaith am flynyddoedd lawer. Cyfeirio ydw i at farwolaeth Gwilym Tudur cyn-berchennog yr enwog "Siop y Pethe" yn Aberystwyth am 48 mlynedd gyda'i wraig Megan, merch y bardd Kitchener Davies. Brodor o Chwilog odd Gwilym ond buodd o a'i wraig yn byw yn Lledrod ger Aberystwyth cyn symud i Gaernarfon ar ôl ymddeol. Gwerthwyd "Siop y Pethe" i ŵr busnes lleol ond oherwydd y costau uchel o gynnal y Siop penderfynwyd er mawr siom gau y lle. Mae nifer o Siopau Llyfrau Cymraeg ledled Cynru yn fregus oherwydd y sefyllfa bresennol ac mae hyn yn destun pryder i garedigion yr iaith ac i'r Gweisg Cymraeg. Cyhoeddodd Gwilym lyfr o'r enw "Wyt ti'n cofio!" yn amlinellu hanes Cymdeithas yr Iaith dros chwarter canrif gyntaf y Gymdeithas.

Y llynedd soniais i yn y golofn hon am fy siom o glywed am fethiant Cyngor Sir Fynwy yn 2023 i agor Ysgol Gymraeg yn Nhrefynwy ar y ffin rhwng Cymru a Lloegr a hynny am wahanol resymau. Ond y newyddion da bellach ydy bod Cyngor Sir Fynwy newydd hysbysebu am "Bennaeth Ysbrydoledig" i Ysgol Gymraeg yn Nhrefynwy fydd yn agor yn mis Medi eleni. Byddai'r diweddar Dr Jac L Williams wedi bod wrth ei fodd yn clywed am y newyddion hyn a dyma'r ail ysgol Gymraeg rwan i amddiffyn y ffin gan yr agorodd Ysgol y Ffin yng Nghil y Coed flynyddoedd yn ôl. Pob llwyddiant i'r ysgol newydd hon a llongyfarchiadau i Gyngor Sir Fynwy am gefnogi'r iaith yn eu rhan nhw o Gymru.

Eleni mae Canolfan y Mileniwm ym Mae Caerdydd yn dathlu ugain mlynedd ers ei bodolaeth ac mae hynny'n golygu bod Canolfan yr Urdd hefyd yng nghefn yr adeilad yn dathlu'r achlysur ar ôl cael cynnig lle yn yr adeilad unigryw hwn. Ond odd hyn yn golygu cau Canolfan yr Urdd yn Heol Conway ym Mhontcanna ar ôl blynyddoedd o groesawu plant ac ieuenctid y ddinas drwy ei drysau cyn y symud. Mae'r Ganolfan newydd yn gallu croesawu tua 150 o aelodau'r Urdd ac eraill ledled Cymru i aros yno a thrwy hynny roi cyfle i ieuenctid ein gwlad ddod i nabod eu prifddinas yn well. Felly pen-blwydd hapus i Ganolfan Mileniwm a Chanolfan yr Urdd gan ddymuno pob llwyddiant am flynyddoedd i ddod.

Dan ni i gyd bellach siŵr o fod yn ymwybodol o drafferthion S4C dros y misoedd diwethaf ond erbyn hyn mae gwaith ar droed i geisio gwella'r sefyllfa ac yn sgil hynny penodwyd Sioned Wiliam, gynt o'r Barri, i lenwi'r bwlch tra'n edrych am Bennaeth Newydd i'r cwmni. Mae Sioned â phrofiad helaeth o weithio yn y cyfryngau a buodd yn bennaeth rhaglenni comedi ITV ar un adeg. Gobeithio bydd hi'n gallu sadio'r llong a gweld S4C unwaith eto yn ennill parch yn ôl i'r genedl. Ar ben y penodiad hwn penodwyd (dros dro) Guto Bebb cyn Aelod Seneddol hefo'r Toriaid i olynu Rhodri Williams fel Cadeirydd S4C.

Mae Cyngor Caerdydd yn ystyried dyfodol Plasty'r Maer yng Nghilgant Richmond yn y Rhath ar hyn o bryd oherwydd costau uchel o gynnal y Plasty trawiadol hwn a adeilawyd nôl tua 1890 gan James Howell, sefydlydd siop fawr Howells ynghanol y ddinas. Dros y blynyddoedd bu'n gartre i Feiri'r ddinas a Barnwyr ac ati a byddai'n drueni i'r Cyngor orfod ystyried gwerthu'r adeilad hanesyddol hwn.

Wel mae cystadleuaeth rygbi'r Chwe Gwlad drosodd am flwyddyn arall erbyn hyn a Chymru druan wedi derbyn y llwy bren wrth golli i'r Eidal – y tîm gwanaf yn y gystadleuaeth fel arfer! Mae 21 o flynyddoedd wedi pasio ers i Gymru wneud mor wael! Trist odd gweld y seren rygbi, George North, yn hercian o'r cae ar ddiwedd y gêm ac yntau yn ymddeol o wisgo crys coch Cymru ar ôl ennill 121 o gapiau dros ei wlad.

Yr un diwrnod y daeth y llwy bren i Gymru cyhoeddwyd enw'r gŵr odd yn olynu Mark Drakeford fel prif weinidog Cymru, sef Vaughan Gething ac yntau, yn ôl y sôn, fydd y dyn du cyntaf i arwain gwlad yn Ewrop. Cafodd ei eni yn Zambia i dad o Gymru a mam o Zambia cyn i'r teulu ddychwelyd i fyw yn Lloegr. Enillodd radd ym Mhrifysgol Aberystwyth a chyfreithiwr odd o cyn mynd i fyd gwleidyddiaeth. Mae talcan caled o'i flaen yn ei swydd newydd a felly rhaid dymuno'n dda iddo wrth ymgodymu â'r holl broblemau sy'n wynebu Cymru yn y misoedd a'r blynyddoedd sy i ddod. Yn rhyfedd iawn erbyn hyn mae gŵr o dras Asiaidd yn brif weinidog yr Alban, gŵr arall o dras Asiaidd yn brif weinidog Prydain a gŵr eto o dras Asiaidd yn Faer Llundain a Vaughan Gething rwan o dras Affricanaidd yn brif weinidog Cymru!

Tan y tro nesa hwyl fawr i chi i gyd a mwynhewch y gwanwyn!

# Clwb Canna

Wel, am noson wych arall gan Glwb Canna! Gig mis Mawrth eleni oedd Pwdin Reis, Wigwam a Dagrau Tân.

Band ifanc o Ysgol y Fro yw **Dagrau Tân**, ond fyddai neb wedi credu hynny – criw o berfformwyr a chantorion arbennig o dda, a lwyddodd i gael y gynulleidfa ar eu traed yn fuan iawn ar ddechrau'r noson. Chwarae teg, maen nhw'n dalentog iawn. Cofiwch yr enw – "Dagrau Tân", mae 'na ddyfodol iddyn nhw.

Yna, cawsom y fraint o groesawu **Wigwam** i'r llwyfan. Unwaith eto, gwnaeth y band ifanc yma ddim siomi. Un o'r bandiau hynny, eto, ddechreuodd gigio pan oedden nhw yn yr ysgol, a chawsom ein hudo gan rai o'r hen ffefrynnau, fel "Mynd a Dod". Cawsom ein cyflwyno hefyd, i set newydd, fwy acwstig, ac mae 'na gyffro am y gerddoriaeth newydd yn sicr o ddenu cefnogwyr newydd, felly ewch i'w gweld mewn gigs dros yr haf, i chi gael dweud, "roeddwn i yno".

Ac i gloi'r noson, waw, roedd **Pwdin Reis** yn wefreiddiol. Fe wnaethon nhw godi'r to gyda'u cerddoriaeth, ac ymdeimlad o barti, a bod ar y llwyfan i FWYNHAU. Roedd pawb wrth eu boddau, a chafwyd llu o ffefrynnau gwych i ddawnsio a chyd-ganu iddyn nhw. Eto, band yn llawn cerddorion a pherfformwyr anhygoel oedd yn diddanu'r gynulleidfa ac yn ymateb yn hollol arbennig iddyn nhw. Roedd pawb yn y blaen yn wirioneddol fwynhau'r adloniant pur, a chafodd y band eu galw 'nôl i fwy nag un encore.



*Pwdin Reis*

Roedd yn gymaint o hwyl gweld yr holl wahanol bobl yn mwynhau drwy'r gyda'r nos.

Gig nesaf Clwb Canna fydd Gwilym Bowen Rhys a'r Band a Mari Mathias yn y Clwb Rhyddfrydol, Treganna nos Wener 17 Mai. Mae'r tocynnau ar werth am £15 yn Caban ac ar-lein drwy TicketSource: Clwb Canna event tickets from TicketSource.

# Cymdeithas Wyddonol Cylch Caerdydd

Ar Nos Lun Mawrth 11 2024 cawsom gyflwyniad diddorol iawn ar yrfa yr Athro K. Alan Shore mewn Ffiseg golau dan y testun 'Goleuo'r Ffordd: Gyrfa Anhrefnus mewn Physgoton'. Ganwyd Alan yn Nhredegar Newydd yng Nghwm Rhymni lle aeth i Ysgol Lewis Pengam cyn gwneud gradd mewn Mathemateg yng Ngholeg yr Iesu, Rhydychen. Yna gwnaeth Ddoethuriaeth mewn laserau lled-ddargludol (semiconducting lasers) ym Mhrifysgol Caerdydd cyn cael swyddi darlithio ym Mhrifysgolion Lerpwl a Chaerfaddon.

Yna penodwyd Alan i gadair ym Mhrifysgol Bangor 1995 gyda Alwyn Owens yn bennaeth ar yr Adran Beirianneg Electronig. Yno sefydlodd Fforwm Opto-elecTrONig Cymru (FFOTON), y sefydliad Technium OpTIC yn Llanelwy ac Academi Ffotoneg Cymru neu yn Saesneg Photonics Academy of Wales @Bangor (PAWB). Fel y gwelwch mae Alan yn hoff iawn o greu acronymau Cymreig i'r prosiectau mae e'n gweithio arnynt!



Roedd cyfarwyddwr yr academi Ffotoneg, Ray Davies yn cynnal ysgolion haf i fyfyrwyr chweched dosbarth oedd yn ysbrydoliaeth i nifer o wyddonwyr heddiw. Denodd Alan gynhadledd fyd-eang ETOP (Education and Training in Optics and Photonics) i Lanelwy ym 2009, a bu'n gysylltiedig â nifer o ddigwyddiadau dros Gymru ym mlwyddyn rhyngwladol golau yn 2015. Yn 2017 yn Eisteddfod Ynys Môn pwysodd Alan i gael rhan o seremoni y fedal wyddoniaeth, a ddyfarnwyd i Deri Tomos, ar brif lwyfan yr Eisteddfod am y tro cyntaf.

Mae Alan wedi bod yn gysylltiedig â Chymdeithas Ddysgedig Cymru ers ei sefydlu yn 2010, gan sicrhau darlith wyddonol bob yn ail flwyddyn adeg yr Eisteddfod Genedlaethol.

Mae'r Gymdeithas wedi creu Rhwydwaith Ymchwilwyr Gyrfa Cynnar i alluogi gwyddonwyr ifanc i wneud cysylltiadau hanfodol i'w dyfodol. Arweiniodd hyn at sefydlu academi debyg i'r DU gyda Alan ar ei phwyllgor. Mae profiad Alan o weithio yn Japan wedi arwain at fod yn rheolwr Cymru ar Gymdeithas hybu Gwyddoniaeth Japan. Gorffennodd Alan drwy sôn am ei falchder o gwrdd â sefydlydd Amgueddfa Pwll Glo Elliot yn Nhredegar Newydd trwy'r Gymdeithas Ddysgedig. Dyma'r pwll glo lle gweithiodd tad-cu Alan gan ddod a ni nôl at ddechrau y sgwrs a'i wreiddiau yng Nghwm Rhymni.

*Rhys Morris*

# Colofn Natur

## *Y Frân*



**Gethin Jenkins-Jones**

Rydym fel teulu yn hoff iawn o anifeiliaid, ond er hynny, mae pymtheg mlynedd wedi mynd a dod ers y tro diwethaf i ni fod yn berchen ar unrhyw anifail anwes (cath wnaethom fagu o'r enw 'Gizzy'). Wedi ei marwolaeth yn 2009, nid oedd awydd yn y tŷ am anifail newydd, a hyd heddiw mae'r teimlad yna wedi parhau. Ond yn sydyn ac yn hollol annisgwyl tuag wythnos yn ôl, fe wnaeth creadur newydd 'ymuno' â'r teulu Jenkins-Jones ac, rydw i nawr yn gobeithio y bydd efo ni am sbel.

Tra'n aros yn nhŷ fy rhieni am wythnos yng nghanol mis Mawrth, dwi'n cofio edrych allan o'r ffenest i weld brân yn sefyll ymysg y blodau. Nid oedd hyn yn hollol annisgwyl - o bryd i'w gilydd rwyf wedi gweld yr adar yma yn dod i'r ardd. Ond wedi rhai oriau roedd yn amlwg bod rhywbeth o'i le, oherwydd sylwais na fedrai'r aderyn hedfan i ffwrdd. O bosib roedd newydd anafu un o'i adenydd, er nad oedd yn llusgo y naill adain na'r llall yn llac ar y llawr wrth gerdded, fel mae adar wedi'u hanafu'n dueddol o wneud. Yn gyffredinol roedd yn edrych yn hollol iach hefyd - yn rhedeg yn gyflym oddi wrthom wrth i ni gerdded i'r ardd, ac yn neidio lan y grisiau o'r lawnt i'r palmant yn hollol iawn. Sylwais hefyd ei bod yn ffafrio treulio'i hamser wrth ymyl y gwelyau blodau yn hytrach nag unrhyw ardal arall o'r ardd. Efallai oherwydd roedd yn ardal gysgodol o'r gwynt a glaw, neu oherwydd ei bod yn haws iddi ffeindio trychfilod yno na'r lawnt.

Y diwrnod wedyn es allan efo crwst o fara brown ati, gan deimlo trueni dros yr aderyn. I ddweud y gwir, roeddwn yn synnu i raddau ei bod wedi goroesi'r nos heb gael ei dal gan gath neu gadno. (Ers hynny rydym wedi darganfod ei bod yn clwydo mewn llwyn trwchus sy'n rhoi lloches rhag y tywydd ac ysglyfaethwyr o'r fath). Hopiodd yn gyflym i ffwrdd, ond wedi i mi daflu'r bwyd iddi ac yna cerdded i ffwrdd ychydig, daeth yn ôl yn gyflym. Meddyliais am ba fwydydd eraill y gallwn eu rhoi iddi, gan na all bara roi'r maethyddion angenrheidiol iddi dros gyfnod hir. Ers hynny rydym hefyd wedi bwydo gwygbys iddo, ac yn ôl fy rhieni mae'n dwli arnynt!

Rydw i wedi dychwelyd i Fangor rŵan, ond mae fy rhieni yn dweud ei bod ychydig yn llai ofnus ohonynt yn ystod y dydd, gan ei bod bellach yn gwybod eu bod yn ffrind iddi. Efallai un dydd bydd yn ddigon hyderus i lanio ar fy sgwyddau! Ond nid yw hi wedi bod yn stori hollol hapus ers i ni ddechrau gofalu am y creadur yma. Nid oes unrhyw arwydd bod ei hanaf yn gwella, ac o bryd i'w gilydd mae brân arall yn dod i'r ardd i'w bwlio. Er y byddwn yn cadw ei bola yn llawn, mae yna beryg o hyd y bydd ysglyfaethwr yn ei dal, neu y bydd tywydd gwael yn ei heffeithio'n ddifrifol. Ond rwyf yn hapus bod yr ardd yn 'llety' digon safonol iddi. Mae gennym bwll os yw'n sychedig, ac mae digon o drychfilod yn yr ardd gan nad ydym yn defnyddio unrhyw gemegau.

Mae wedi bod yn ddiddorol i fyfyrio ar fy nheimladau dros yr wythnos diwethaf. Er fy mod yn parchu brain, ac yn eu hedmygu am eu clyfrwch (a rhywogaethau eraill y teulu), nid ydynt yn un o fy hoff adar. Mae eu niferoedd wedi cynyddu'n gyflym dros y degawdau diwethaf diolch i ddyn, a bellach maent yn broblem ddifrifol i rai o adar prinaf Cymru, fel y Gylfinir a'r Cornchwiglen, gan eu bod yn dda iawn yn ffeindio eu hwyau a'u cywion. Ond mae bodau dynol yn dda iawn am gydymdeimlo efo 'unigolion', yn enwedig rhai sy'n dioddef, tra nad yw ffigyrau mawr ar y newyddion neu ar graff yn aml ddim yn cael yr un effaith arnom. Mi fydd yn ddiddorol gweld sut bydd y stori yma yn parhau ac, er na fydd fy nheimladau am y rhywogaeth yn dueddol o newid, rwyf yn obeithiol y bydd ein 'hanifail anwes' newydd yn medru byw i fwynhau tywydd braf y misoedd i ddod.



*Llun: Sophie Jenkins-Jones*

## Ysgol Groes-wen yn Dathlu ei Hagoriad Swyddogol



Ym mis Medi 2024 agorodd ysgol newydd sbon ei drysau am y tro cyntaf i groesawu haid o ddisgyblion brwdfrydig; newydd sbon o ran adeiladwaith ac o ran meddylfryd, ac ar y pedwerydd o Fawrth eleni mi gafwyd achlysur arbennig i'w hagor yn swyddogol.

Gweledigaeth ein hysgol hardd ar ystad dai Plasdŵr yng ngorllewin y ddinas yw:-

- Gyda'n gilydd yn gryfach, bydd ysgol ddwyieithog Groes-wen yn sefydlu cymuned ysbrydoledig, gynnes a chroesawgar sydd yn dathlu Cymreictod gan ddatblygu amgylchedd cynhwysol a chynaliadwy.
- Bydd ein plant yn datblygu fel unigolion creadigol, hyderus, egwyddorol, uchelgeisiol a dwyieithog!

Mae'r adeilad hynod yma'n arloesi mewn sawl ffordd. Nid oes un gronyn o danwydd llygredig yn cael ei losgi yma. Mae'r lle cyfan yn cael ei redeg gan bympiau gwres ffynhonnell aer (air source heat pumps) gyda chymorth rhesi o baneli solar ar y to. Rydym hefyd yn rhan o gynllun teithio llesol cyngor Caerdydd, ac yn annog pawb i ddod yma ar droed, ar feic a sgwteri.

Ond yr elfen fwyaf arloesol yw model ieithyddol yr ysgol. Richard Carbis yw'r pennaeth:-

"Mae ein model Iaith Ddeuol wedi'i seilio ar ymchwil rhyngwladol. Ein bwriad yw datblygu siaradwyr Cymraeg rhugl sydd yn dathlu eu hunaniaeth. Yng Ngwlad y Basg maent wedi dangos dros y deugain mlynedd diwethaf sut mae Model B ysgolion wedi agor y potensial at ehangu parch a balchder yn yr iaith a dyma'n bendant beth yr ydym hefyd yn anelu ato. Credaf fod angen ymfalchïo yn y ffaith ein bod yn clywed yr iaith mewn ardal newydd sbon danlli yng Nghaerdydd, nid ond yn yr adeilad ond ar hyd y strydoedd. Mae plant yr ysgol yn ymfalchïo eisoes yn ei gallu i ganu ar hyd Plasdŵr yn y Gymraeg. Fel person o Gaerdydd, mae hi'n fraint ein bod yn gallu normaleiddio defnydd y Gymraeg yn yr ardal hon.

Mae'r model sydd gennym yn galluogi hanner y gwersi yn Gymraeg a hanner yn Saesneg. Yn syml, mae Dyniaethau a Chelfyddydau Mynegiannol yn y Gymraeg a Gwyddoniaeth a Thechnoleg a Mathemateg yn flaenorol yn Saesneg. Wrth gwrs bydd angen canolbwyntio ar iaith fel focws yr ysgol. Ar sail hyn rydym wedi ffurfio continwwm iaith Groes-wen. Bydd dysgu patrymau iaith ac ati yn allweddol.

Rydym wir eisiau magu disgyblion sydd gyda chariad at ieithoedd, sydd yn cymryd y Gymraeg fel rhan naturiol o fywyd ysgol, sydd yn dangos parch at ei gilydd ac sydd yn dathlu'r ardal leol ac wrth gwrs Cymru. Yn hyn oll hoffwn bwysleisio, mae ffrwd Gymraeg gennym sydd yn gweithredu yn union yr un ffordd ag ysgol cyfrwng Cymraeg. Yn wir, mae'r Gymraeg i'w chlywed ym mhob dosbarth ac ar hyd y strydoedd sydd yn arwain at Ysgol Groes-wen!"

Plannwyd cannoedd o goed, planhigion a llwyni ar safle eang yr ysgol, a blodau yw enwau'r holl ddosbarthiadau…

Lili Wen Fach yw ein dosbarth Meithrin, a Catrina Rhisiart yw'r athrawes:-

"Mae dechrau ysgol yn gam mawr ym mywyd plentyn ac anelwn at wneud y pontio o'r cartref i'r ysgol mor slic â phosib iddyn nhw ac i chi. Yn Lili wen fach rydym yn darparu ar gyfer anghenion pob plentyn trwy roi'r cyfle iddyn nhw ddatblygu sgiliau ac annibyniaeth trwy chwarae a dysgu mewn amgylchedd sy'n eu sbarduno, sy'n ddiogel, sy'n magu sicrwydd ac sy'n un hapus a chartrefol. Cynlluniwyd y dosbarth i fod yn ystafell agored, olau sydd yn cynnwys elfennau naturiol, fel planhigion, golau naturiol a lliwiau'r ddaear, i hyrwyddo ymdeimlad o dawelwch. Y tu allan, mae ardal ddysgu benodol gyda chanopi a llawr meddal sydd yn galluogi'r plant i chwarae a dysgu yn yr awyr agored ym mhob tywydd!"

Alaw Hughes yw athrawes dosbarth Ffion, y dosbarth cyfrwng Cymraeg ar gyfer plant oedran Derbyn, blwyddyn un a blwyddyn dau.

"Anogwn ein disgyblion i fod yn annibynnol, hyderus, egwyddorol, gwybodus, iach, gweithgar ac ymroddgar yn y dosbarth a'r awyr agored wrth gynllunio gweithgareddau sydd yn eu sbarduno a'u herio."





Dosbarth Fioled sydd ar gyfer disgyblion Derbyn a blynyddoedd un a dau yn y ffrwd iaith ddeuol, a Nia Jefferies yw'r athrawes:-

"Croeso i ddosbarth Fioled! Rydym yn annog y plant i fod yn weithgar, chwilfrydig, iach, hyderus, egwyddorol a gwybodus. Mae'r dosbarth yma yn y ffrwd iaith ddeuol, felly bydd disgyblion yn cael eu haddysgu trwy gyfrwng y Saesneg ym meysydd mathemateg a rhifedd, gwyddoniaeth a thechnoleg ac yn hanner ein gwersi iechyd a lles a iaith a llythrennedd. Bydd y dyniaethau, celfyddydau mynegiannol a'r hanner arall o'r gwersi iechyd a lles, yn ogystal â iaith a llythrennedd, trwy gyfrwng y Gymraeg."

Ac mae yna gylch meithrin a chlwb ar ôl ysgol hefyd:-

"Mae'r Cylch Meithrin yn darparu gofal am blant o 2 - 4 oed mewn ystafell bwrpasol yn adeilad Ysgol Groes-wen. Rydym yn cynnig sesiynau 3 awr yn y bore (8.45 - 11.45) a phrynhawn (12.15 - 3.15) a hefyd yn rhedeg y clwb ar ôl ysgol tan 6.00 yr hwyr ar gyfer holl blant yr ysgol gyda staff cymwys a phrofiadol. Mae'r Cylch a'r clwb wedi eu cofrestru gyda AGC ac yn gweithio gyda Mudiad Meithrin a Chlybiau Plant Cymru hefyd. Mae'r cylch ar agor yn ystod tymor ysgol yn unig, ac os am fwy o fanylion, mae croeso i chi gysylltu gyda'r arweinydd, Angharad Evans, drwy e-bost cylchmeithrin.groeswen@gmail.com neu ar y rhif 07958 299 994."

Arweinydd cyngor Caerdydd, y cynghorydd Huw Thomas, a'r aelod cabinet dros addysg, y cynghorydd Sarah Merry, gafodd yr anrhydedd o agor yr ysgol.

Mae gan yr ysgol gyfleusterau technoleg gwybodaeth ac arlwyo a mannau cyfarfod o'r radd flaenaf ar gyfer eich digwyddiadau bach a mawr, yn ogystal â swyddfeydd ar gyfer cyfarfodydd, cynadleddau, a darpariaethau mwy hir-dymor. Cysylltwch am fanylion.

Englyn hyfryd Gethin Davies sydd efallai'n crynhoi ysgol Groes-wen orau:-

Ym Mhlasdŵr mae'n cenadwri – ein her
yn awr yw cyhoeddi
"Gwnawn, mi wnawn ein Groes-wen ni
yn oes aur i'w thrysori".

Arloesedd, brwfrydedd heintus a Chymreictod gweladwy sy'n ein hysbrydoli felly dewch i'n hysgol, yn ddisgyblion, yn rhieni a'n ymwelwyr; mi fydd yna groeso mawr ichi ac mi awn ymlaen yn hyderus, gyda'n gilydd yn gryfach.

*Huw Roberts*
Gweinyddwr Ysgol Groes-wen
029 2059 8950
ysgolgroeswen@cardiff.gov.uk
www.ysgolgroeswen.cardiff.sch.uk
@Ysgol_Groeswen



## Tîm Agor y Llyfr Cyngor Eglwysi Cymraeg Caerdydd yn Cyflwyno'r Pasg

Mae emojis wedi dod yn rhan o'n bywyd ers blynyddoedd – y lluniau bach yna sy'n cyfleu cymaint am ein teimladau. Wrth i griw Agor y Llyfr fynd i rai o ysgolion cynradd Cymraeg Caerdydd cyn gwyliau'r Pasg, defnyddiwyd dau emoji ar ddechrau'r cyflwyniad sef

 a 

a hynny er mwyn rhannu hanes dydd Gwener y Groglith (croeshoelio Iesu: diwrnod trist) a hanes dydd Sul y Pasg (Iesu'n atgyfodi: diwrnod hapus). Canolbwyntiodd y tîm ar hanes y gwragedd yn dod at y bedd, yn cael gwybod gan angel fod Iesu'n fyw a'r bedd yn wag, ac yna'n cyfarfod â'r Iesu atgyfodedig cyn mynd ati i rannu'r newyddion da â gweddill y disgyblion.

Mae angen rhannu'r newydd da hwn gyda mwy o ddisgyblion Caerdydd, ond os ydym am ehangu'r gwaith, bydd angen mwy o Gristnogion i wirfoddoli. Os oes gennych ddiddordeb mewn clywed mwy am y gwaith cysylltwch ag Alun Tudur (aluntudur@btinternet.com)



# Ysgol Creigiau

**Eisteddfod yr ysgol**
Dathlon ni Ddydd Gŵyl Dewi ar Fawrth y 1af gydag Eisteddfod. Mwynheuodd pawb wrando ar ddisgyblion y Cyfnod Sylfaen yn canu yn Gymraeg. Gwobrwywyd disgyblion o bob dosbarth gyda thystysgrifau a sticeri am eu gwaith llythrennedd a chelf. Roedd disgyblion o'r pedwar llys wedi cystadlu yn erbyn ei gilydd mewn amrywiol gystadlaethau offerynnol. Daeth yr Eisteddfod i ben gyda phob disgybl CA2 yn cystadlu yng nghystadleuaeth y côr. Roedd hi'n ddiweddglo arbennig i Eisteddfod gofiadwy. Ar ôl brwydr agos Gwrgant oedd yn fuddugol.

**Eisteddfod Gylch a Sir yr Urdd**
Cystadlodd 55 o'n disgyblion yn yr Eisteddfod Gylch mewn cystadlaethau canu a llefaru, iaith gyntaf ac ail-iaith. Cafwyd diwrnod hynod o lwyddiannus. Cawsom chwech cyntaf - Tina, Griff, Lewis, Yaya, Fflur a Monika; chwech ail - Imogen, Gruff, Gwen, Ffion Gracie a'r Grŵp Llefaru Iaith Gyntaf; a thri trydydd - Poppy, Beti, a Chyflwyniad Dramatig Iaith Gyntaf.

Yr wythnos ganlynol, cystadlodd y rhai a ddaeth yn gyntaf neu'n ail yn yr Eisteddfod Gylch yn yr Eisteddfod Sir. Cawsom ddiwrnod arall llwyddiannus dros ben. Cawsom chwe cyntaf - Tina (Llefaru Bl 2 ac iau i ddysgwyr); Yaya (Llefaru Bl 3 a 4 i ddysgwyr); Gracie (Llefaru Bl 5 a 6 i ddysgwyr) a'r Parti Llefaru i ddysgwyr. Cawsom dri ail - Imogen (Llefaru Bl 2 ac iau i ddysgwyr); Ffion (Llefaru Bl 3 a 4 i ddysgwyr) a Monika, (Llefaru Bl 5 a 6 i ddysgwyr). Cafwyd cyntaf ac ail ar y Cyflwyniad Dramatig i ddysgwyr. Daeth Fflur, dosbarth 4 yn drydydd yn y llefaru Bl. 3 a 4.

Llongyfarchiadau i bawb. Bydd pob cystadleuydd gafodd 1af yn cynrychioli'r ysgol a Chaerdydd a'r Fro yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd a gynhelir ym Meifod, Maldwyn.

**Wythnos o weithgareddau noddedig**
Cyn gwyliau'r Pasg bu pob dosbarth yn codi arian ar gyfer eu helusen dewisol. Cerddodd Dosbarth Derbyn 50 milltir rhyngddynt. i godi arian ar gyfer noddi asyn a chefnogi Fferm Amelia. Rhedodd disgyblion Dosbarth 6 bellter o 10,000 metr mewn 45 munud a 43 eiliad gan godi arian ar gyfer Sefyll Dros Natur Cymru. Mae'r holl weithgareddau noddedig amrywiol wedi annog ein disgyblion i ddatblygu fel dysgwyr egwyddorol, gwybodus Cymru a'r byd.

**Eisteddfod ddawns yr Urdd**
Llongyfarchiadau i'r sgwad Dawnsio Disgo a gystadlodd yn Eisteddfod Ddawns yr Urdd yn Ysgol Fitzalan yn ddiweddar. Roedd safon y dawnsio yn uchel a pherfformiodd y merched yn ardderchog. Da iawn ferched - gwych! Diolch o galon i Mrs Tewkesbury, Mrs Long a Miss Jones am eu hyfforddi.

**Diwrnod y llyfr**



*Dosbarth 2 ar Ddiwrnod y Llyfr*

Ddydd Iau, 7fed Mawrth, dathlon ni 'Ddiwrnod y Llyfr' yn yr ysgol. Gwisgodd y disgyblion (a nifer o athrawon!) i fyny fel cymeriad o'u hoff lyfr neu mewn dillad cyfforddus a derbyniodd pob plentyn docyn llyfr gwerth £1. Cawsom ddiwrnod i'r brenin!

**Gweithdy ymgysylltu Persimmon**
Ymwelodd dau bensaer â'r ysgol i weithio gydag aelodau Bl. 5 a 6 o'n Cyngor Ysgol. Comisiynwyd y penseiri i ddylunio dau faes chwarae i blant ar gyfer Stâd Tai Persimmon ar Heol Llantrisant. Yn ystod y bore, croesawon ni Mark Drakeford, Prif Weinidog Cymru, Kevin Brennan, AS, a Chynghorwyr Dinas Caerdydd, Sarah Merry a Dan De'Ath i'r ysgol. Buont yn siarad â'r disgyblion. Roedd y disgyblion wedi mwynhau'r profiad yn fawr.

**Diwrnod Trwyn Coch**
Roedd pawb yn edrych yn wych yn eu gwisgoedd doniol ar Ddiwrnod Trwyn Coch. Cawsom wasanaeth ysgol gyfan i ddathlu enillwyr y wisg fwyaf doniol a'r jôc orau o bob dosbarth - am hwyl a sbri! Diolch i'n teuluoedd am eu haelioni - casglon ni £508.57! Buon ni hefyd yn cynnal diwrnod 'Mae Gennym Hawliau' ar yr un diwrnod gyda'r disgyblion yn cymryd rhan mewn gweithgareddau yn seiliedig ar Hawliau Plant. Roedd pawb wedi mwynhau'r gweithgareddau amrywiol yn fawr.



*Cystadleuwyr Eisteddfodau Cylch a Sir yr Urdd*

# Pobol y Rhigwm

Pum limrig a ddaeth i law'r beirniad y tro hwn, ac roedd hi'n gystadleuaeth dra annisgwyl, mewn ambell ffordd. Cymerais y byddai gofyn am limrig yn cynnwys y llinell "ar ddiwrnod ffŵl Ebrill eleni" wedi gwahodd casgliad o straeon doniol am bob math o ddireidi, ond dim ond dau o'r pump, mewn gwirionedd, wnaeth fynd i'r cyfeiriad a ddisgwyliais, sef sôn am chware triciau ar Ebrill y cyntaf. Wedi dweud hynny, mae yna rinweddau i'r pum cynnig, yn eu ffordd eu hunain, ac mae'r pump yn haeddu cael eu hatgynhyrchu yn y golofn hon, gyda phwt o feiriniadaeth am bob un. Dyma'r ddau a ddaeth yn agos ati:

Ar ddiwrnod ffŵl Ebrill eleni
Fe gofiwn am ddydd atgyfodi;
Ar drothwy dydd Llun
Y Meistr ei hun
Agorodd y drws i gymodi.

***Pontio***

Mae limrig *Pontio* yn grefftus iawn o ran mynegiant a mydryddiaeth – dydd Llun y Pasg yw Ebrill 1af eleni, wrth gwrs, ac mae neges ddwys-waraidd y cynnig hwn yn amlwg, ac wedi'i chyfleu'n gynnil. Gwaetha'r modd, *Pontio*, mae 'limrig difrifol' yn ormod o baradocs i'r beirniad hwn! Byddai'n gweithio'n wych – o'i addasu – fel triban neu englyn, ond mesur i'w ddefnyddio ar gyfer dweud rhywbeth doniol, neu ysgafn, o leiaf, yw'r limrig, yn ei hanfod.

Ar ddiwrnod ffŵl Ebrill eleni
Fe chwiliais am eiriau i odli;
Er chwilio'n ddi-ball
Drwy'r holl lyfrau call,
Ni chefais un gair i'm bodloni.

*Chwilotwr*

Eironi sydd yn limrig *Chwilotwr*, sef y ffaith i'r awdur fynegi – gydag odlau – na allai ddod o hyd i odlau! Cyfrwys (ac, efallai y byddai'r ergyd wedi bod yn drymach pe na bai'r limrig yn odli!). Da iawn ond yn y bôn, wela i ddim cysylltiad ag Ebrill 1af yma heblaw'r ffaith i *Chwilotwr* ddigwydd fynd ar drywydd ei odlau anghaffaeladwy ar y diwrnod hwnnw. Neu ai'r twyll, fel petai, yw fod yma odlau, pan na ddylent fod? Mae'n ddichon taw fi sy'n hollti blew, nawr! Beth bynnag, dyw'r ergyd ddim yn amlwg yma, mae arna i ofn, ond mae'r limrig wedi'i weithio'n llwyddiannus.

Dyma'r tri sy'n cael llwyfan y tro hwn:

Ni lwyddodd fy machgen i ennill – "hael wobrau"
ar ddiwrnod ffŵl Ebrill – eleni
mae'n blino – ar ddyn anodd ei foddio –
ni dderbyniodd ei arwr ei bennill.

*Wedi'i dwyllo*

Roedd gair o ymddiheuriad i'r beirniad ynghlwm wrth y cynnig hwn, a chais i atgynhyrchu'r 'limrig' fel ag y mae! *Wedi'i dwyllo* yw ymgeisydd clyfra'r gystadleuaeth, o ddigon! Os edrychwch chi'n fanwl, mae yma limrig cudd, pum llinell, wedi'i gywasgu i bedair llinell, a'r pum llinell wreiddiol, fel petai, yn cynganeddu. Mae yma gynganeddwr hyderus (rwy'n derbyn bod yr 'm' yn "mae'n" ar ddechrau'r drydedd linell yn achub y broest o ran "eleni" a "blino") ac mae cynghanedd Groes o gyswllt gymhleth drawiadol yn y llinell glo. Anesmwyth yw'r fydryddiaeth o'i osod yn ôl fel limrig go iawn, ac mae'n rhaid cadw "eleni" ar yr un llinell er mwyn bodloni gofynion y dasg, wrth gwrs, er mai ar ddechrau'r drydedd linell fyddai "eleni" yn syrthio'n naturiol. Ai'r 'twyll', felly, yng nghyd-destun Ebrill 1af, yw fod yma limrig cêl mewn pennill cynganeddol? Efallai bod hwn fymryn yn rhy glyfar, *wedi'i dwyllo*, ond gwerthfawrogaf y dyfeisgarwch!

Tro nesaf enillan ni'r rygbi;
Dwi 'di betio fy nghartref i arni.
Mi ges i'r darogan
Gan Santes Gwyddelan
Ar ddiwrnod ffŵl Ebrill eleni.

***Hyder***

Dyma ddod, felly, at y ddau gynnig gorau, ac mae'r naill a'r llall yn gwneud yn union beth roeddwn i wedi'i obeithio, sef sôn am dric ffŵl Ebrill. Mae'r ddau wedi peri i fi wenu, ond mae elfennau technegol yn limrig *Hyder* sy ddim cweit yn ei tharo hi. Mae angen ailweithio'r llinell gyntaf gan roi coma ar ôl 'nesaf', ac 'enillwn' sy'n gywir (felly, 'tro nesaf, enillwn ni'r rygbi'). Mae sill yn ormod yn yr ail linell, a 'betio fy nghartref <u>ar hynny</u>' sy'n dilyn ymlaen yn naturiol o'r gosodiad y llinell gyntaf. Mae pethau felly *yn* bwysig, *Hyder*! Wedi dweud hynny i gyd, mae sylwedd y limrig yn argyhoeddi. Mae'n amserol, yn wreiddiol ac yn gwbwl gyd-destunol. Gresynu am gyflwr y tîm rygbi cenedlaethol yn sgil ennill y llwy bren ym mhencampwriaeth y Chwe Gwlad eleni wna *Hyder* (ffugenw doniol, gyda llaw!). At hynny, sylwch mai Santes *Gwyddel*an wnaeth chwarae'r tric creulon hwn ar *Hyder* ar ddiwrnod ffŵl Ebrill! Cynnil, crafog a doniol.

Ar ddiwrnod ffŵl Ebrill eleni,
fe roddwyd llaeth sgim yn y coffi.
Ni chanfyddon nhw'r euog,
er taw fi wisgodd ffedog
rhag ofon i rywun gyfogi.

***Pen Coch***

Yr hyn sy fwyaf doniol am limrig *Pen Coch* yw mai'r tric oedd rhoi llaeth sgim yn y coffi – nid halen, neu gyffelyb – a bod y cyfryw weithred yn ddigon eithafol i godi cyfog, ar aelwyd *Pen Coch*! Roedd y beirniad (sy'n yfed llaeth hanner-sgim, gyda llaw!) wedi sylwi hefyd ar berthnasedd 'pen coch' caeadau cartonau llaeth sgim! Ie, dyna sy'n ei wneud yn ddoniol, y fath ehofndra o feiddio amnewid y llaeth arferol am un sgim! Gwreiddiol a pherthnasol, ac wedi'i fynegi'n gywir – mae *Pen Coch* yn cyfri'r sillafau! Uwchlaw dim, hwn oedd y limrig wnaeth ddod â'r wên lydanaf i fi'r tro hwn, ac sy'n bendant yn haeddu'r wobr gyntaf, llongyfarchiadau.

*Aron Pritchard*

**Enillydd**

**Alan Iwi, Didcot**

**Cystadleuaeth mis Ebrill**

**Pennill <u>heb fod dros bedair llinell</u>:**

**Gwanwyn**

*Anfonwch eich cynigion erbyn 22 Ebrill at:*
*eirianagwilym@gmail.com*
*Gwobr: Tocyn llyfr: £10*

# Merched y Wawr Y Felin

Ar nos Iau 21ain o Fawrth cafodd Merched y Wawr Y Felin noson ddifyr iawn yng nghwmni Rhisiart Arwel. Bu'n son ychydig am ei hun ac yn chwarae amrywiaeth o ddarnau sydd wedi cael eu haddasu ar gyfer y gitâr, rhai clasurol, rhai emynau Cymraeg a darnau o Sbaen, Brasil, Yr Ariannyn ac o Gatalonia.

Mae Rhisiart yn fab i weinidog ac yn wreiddiol o Ddinbych. Symudodd y teulu i Ddyffryn Aman pan yr oedd yn bedair oed a threulio nifer o flynyddoedd mewn ardal gwbl Gymreig gyda diwilliant cryf a phwysig Cymraeg yna.



Symudodd y teulu yn ôl i'r gogledd i Gorwen nes ymlaen a dywedodd ei fod yn adnabod Zonia Bowen a'i theulu.

Y rheswm y dewisodd Rhisiart y guitar fel offeryn oedd yn bennaf oherwydd diwilliant y 1960'au pan yr oedd yn tyfu i fynu a chafodd wersi gitâr yng Nghaer bob dydd Sadwrn cyn mynd i'r Royal Northern College yn Manceinion ar gyfer ei radd a wedyn dan bwysau gan ei fam, fe aeth i Goleg Cyncoed i wneud blwyddyn TT ond doedd e ddim eisiau bod yn athro! Cerddor proffesiynnol oedd ei ddymuniad.

Bu'n darlithio yng Ngholeg y Drindod a Choleg Cerdd a Drama Cymru a hefyd yn gweithio gyda HTV, y BBC, S4C a Radio Cymru a nawr mae yn ôl yn perfformio bob hyn a hyn. Ei brif atgof o berfformio oedd un tro yn y Royal Albert Hall, lle mawreddog dros ben a chafodd brofiad anhygoel yna.

Rhai o'r darnau glywsom ni oedd:-
Dawns ysgafn gyflym o Brasil
Prelude cyfres i'r cello rhif 1,
Darn Gymnopedié rhif 1 gan Eric Satie,
Emyn Rhys gan WJEvans,
Emyn Llef gan Gruffydd Huw Jones,
Ei gyfansoddiad ei hunan Pader,
Darn piano wedi ei addasu gan Enrice Granalos, Dawns o Andalucia.
Cavatina o ffilm y Deer Hunter,

Gorffennodd gyda tair can a threfniadau guitar, Can y Goeden, La Paloma ac yn olaf darn i biano gan Issac Albens gafodd ei ddylanwadu gan ardal Asturias yn Sbaen.

Rhannwyd ein noson yn ddwy er mwyn cael ychydig bach o ddathlu Gŵyl Dewi, diolch i'r aelodau ddaeth a bara brith a pice ar y man blasus iawn i ni fwyta ac i'r rhai fu'n gosod a thacluso'r ystafell ac yn gwneud y te a choffi.

Fe wnaeth nifer ohonom brynu un neu ddwy CD yr un ar ddiwedd y noson ac yn bersonnol dwi wedi mwynhau yr un Encil yn fawr iawn.

**Siwan Hill**

# Aelwyd Hamdden

Ar ddechrau Mis Mawrth aeth aelodau Aelwyd Hamdden i'r Butcher's Rhiwbeina i fwynhau pryd o fwyd i ddathlu Dydd Gŵyl Dewi.

Bore Cymdeithasol gafwyd yn yr ail gyfarfod, cwpaned, cacen a sgwrs.

Edrychwn ymlaen i sgwrs gan Owen Saer ar fore Mercher Ebrill 10fed, a bore Cymdeithasol ar fore Mercher Ebrill 24.

Mae croeso i unrhywun ymuno â'r aelwyd, cynhelir y cyfarfodydd yng Nghapel Bethel Rhiwbeina rhwng 11 a 12 y bore. Os am ragor o wybodaeth cysylltwch â'r ysgrifennydd Beth Killen - 029 20556508

## Cyfarfod Blynyddol *Y Dinesydd*

Byddwn yn cynnal ein cyfarfod blynyddol eleni ar nos Fercher 12 Mehefin yn Pizzeria Villagio, 73 Ffordd Merthyr, Yr Eglwys Newydd am 6.30pm. Bydd croeso i unrhyw un a ddaw i'r Cyfarfod Blynyddol ymuno am bryd o fwyd yn y tŷ bwyta yn dilyn am 7.30pm. Rhowch wybod os am ymuno am fwyd, eirianagwilym@gmail.com

# Acenion yn y newyddion: beth am Gymraeg Caerdydd?

*Ymchwiliodd Ianto Gruffydd i acen Cymraeg Caerdydd ar gyfer ei radd doethuriaeth ym Mhrifysgol Caerdydd dan nawdd y Coleg Cymraeg . Fe yw'r cyntaf i wneud hyn oherwydd bod acen Cymraeg Caerdydd yn newydd i gymharu ag acenion traddodiadol Cymraeg Cymru. Mae'r erthygl isod yn grynhodeb o'i ganfyddiadau.*

Mae acenion wedi mynnu sylw cyfryngau'r prif-lif ers adroddiad y *Guardian* ar wahaniaethu ar sail acenion, neu 'accentism', yn y Deyrnas Unedig a daflodd olau ar brofiadau myfyrwyr o leoedd fel gogledd Lloegr ac Essex a gafodd eu trin yn llai ffafriol yn y Brifysgol ar sail eu hacenion. Yn fwy diweddar, cafwyd erthyglau yn *The Conversation* yn trafod acenion yn ogystal: un ar benderfyniad rhieni Rishi Sunak i'w yrru am wersi drama fel nad oedd o'n siarad Saesneg gyda dylanwad ei dreftadaeth Indiaidd, a'r llall ar ddiflaniad Cockney a 'Received Pronunciation (RP)' ymysg pobl ifanc dwyrain Llundain, gyda Saesneg Tafwys 'Estuary English' a Saesneg amlddiwylliannol Llundain 'Multicultural London English' yn cymryd eu lle.

Mewn gwirionedd, digwyddodd rhywbeth tebyg iawn i'r Gymraeg yng Nghaerdydd gyda diflaniad y Wenhwyseg a ffurfiant tafodiaith newydd Cymraeg Caerdydd yn y brifddinas. Daeth dyfodiad y cyfryngau Cymraeg yn y ddinas yn y 1960au a'r 1970au â swyddi wnaeth sefydlu dosbarth canol Cymraeg yn y ddinas a heidiasant yma o bob cwr o'r wlad. Denodd twf addysg Gymraeg hefyd deuluoedd di-Gymraeg i fynychu'r ysgolion Cymraeg ers Ysgol Bryntaf ym 1966 ac Ysgol Glantaf ym 1978 hyd heddiw.

Gyda'r ddau ffactor hwnnw, daeth arlliw unigryw i'r dafodiaith: yr 'allan' a'r 'fyny' gogledd-orllewinol ar un llaw, a'r 'weithiau' (ynganwyd yn debyg i "weithioi" [wɛi'θjɔi]) a'r 'nhw' ("niw" [nju:]) dan ddylanwad Saesneg ar y llaw arall. Tu hwnt i hynny, ceir dyfeisgarwch hefyd, gyda siaradwyr Cymraeg Caerdydd yn cynhyrchu'r ynganiad safonol '-au' ar lafar fel nad yw'n gyffredin yn y tafodieithoedd mwy traddodiadol (a ddefnyddiant '-e' neu '-a').

Mae'n debygol bod rhai siaradwyr Cymraeg Caerdydd yn gyfarwydd â phrofiadau o wahaniaethu ar sail acen, gyda'r acen yn aml yn destun gwawd sawl piwritan iaith dros y blynyddoedd oherwydd dylanwad y Saesneg arni a diffyg 'cywirdeb' ei siaradwyr. Yn anffodus i'r bobl hynny mae gwahanol ieithoedd yn dylanwadu ar ei gilydd erioed ac mae diffyg cywirdeb iaith lafar yn realiti i'r rhan fwyaf ohonom ni.

Efallai bod yr agweddau hyn yn prinhau bellach ond mae'n debyg iddynt arwain at stigmateiddio'r acenneu dafodiaith. Fy nghwestiwn i yw: lle mae Cymraeg Caerdydd i'w chlywed heddiw yn y Gymru gyfoes? Ydy hi wedi ei chyfyngu i ambell sioe gyda'r nos ar Radio Cymru? Neu wrth wylio Gwennan Harries yn trin a thrafod timau pêl-droed Cymru llond llaw o weithiau'r flwyddyn ar S4C?

Yn Sweden, mae sawl gohebydd blaenllaw yn ymddangos ar y darlledwr cenedlaethol SVT/SR yn defnyddio tafodiaith newydd Swedeg Rinkeby. Ethnolect nid annhebyg i Saesneg amlddiwylliannol Llundain ydyw sy'n cael ei siarad yn ardal Rinkeby yn Stockholm lle mae 91.2% o'r boblogaeth yn fewnfudwyr.

Mae gan SVT bolisi yn eu llawlyfr sy'n datgan:

"Mae'r iaith a glywir ar SR yn adlewyrchu holl gymdeithas ieithyddol Sweden. Mae tafodieithoedd ac amrywiadau eraill, sydd wedi deillio o ieithoedd eraill, yn rhan o'r amrywiaeth ieithyddol sydd i'w chlywed yn Sweden. Mae ein cydweithwyr yn rhydd i ddefnyddio eu hiaith eu hunain cyn belled â'i fod yn ddealladwy".

Yng Nghymru mae llawer o gyflwynwyr Newyddion S4C wedi eu geni a'u magu yng Nghaerdydd, ond nid ydyn nhw'n siarad â'r acen newydd nodweddiadol. Pam hynny, tybed?

Mae'n bosibl nad yw'r acen neu dafodiaith yn cael ei gweld fel un sy'n addas neu'n briodol i'w defnyddio yn y cyd-destun hwn oherwydd y stigma sy'n perthyn iddi. Mae cyflwynwyr neu ohebwyr newyddion yn tueddu i siarad ag acen neu dafodiaith fwy traddodiadol. Disgwylir bod mwy o fri yn perthyn i'r acenion Cymraeg traddodiadol o'u cymharu ag acen newydd fel Cymraeg Caerdydd.

Mae hyn yn codi cwestiwn arall ynglŷn ag amhriodoldeb Cymraeg Caerdydd tu hwnt i'r cyd-destun newyddion penodol y soniwyd amdani fel y nodwyd yn adroddiad y Guardian. Oes posib bod siaradwyr Cymraeg Caerdydd yn lleihau neu'n peidio defnyddio'r acen mewn rhai cyd-destunau, oherwydd bod y stigma sydd ynghlwm â'r acen yn arwain at deimlad y caiff ei siaradwyr eu trin yn llai ffafriol? Byddai'n bosibl yn y pendraw bod y dafodiaith yn cael ei defnyddio mewn cyd-destunau penodol yn unig, er enghraifft, yn yr ysgol. Gelwir hyn yn diglossia.

Yn yr un modd â'r erthyglau prif-lif a gyflwynwyd ar ddechrau'r erthygl hon, mae'n debyg mai problem gymdeithasol sydd wrth wraidd y diffyg cynrychiolaeth i acen neu dafodiaith Cymraeg Caerdydd.

Da felly fyddai cynyddu'r gynrychiolaeth hyn ar raglenni'r cyfryngau Cymraeg fel y gwelir yn Sweden, yn enwedig gan ystyried y rôl chwaraeodd y diwydiant hwnnw wrth ffurfio'r dafodiaith newydd hon yng Nghaerdydd.

Byddai hyn yn medru dangos i siaradwyr Cymraeg Caerdydd ac unrhyw dafodieithoedd newydd eraill yng Nghymru bod lle iddynt mewn unrhyw gyd-destun ac nid dim ond yn yr ysgol neu fel person ifanc. Yn ei dro byddai gwella'r gynrychiolaeth hyn yn medru arwain at leihau'r stigma a'r amhriodoldeb sydd ynghlwm â Chymraeg Caerdydd a cheisio mynd i'r afael â phroblem fel gwahaniaethu ar sail acen.

Dr Ianto Gruffydd
Cydymaith Ymchwil mewn Sosioieithyddiaeth ym Mhrifysgol Caerdydd

Am ragor o wybodaeth cysylltwch â:
Nadine Kurton, Swyddog Cyfathrebu, Coleg Cymraeg Cenedlaethol, 07792 538239 neu e-bostiwch n.kurton@colegcymraeg.ac.uk

## James Mansel Jones

**26.2.1946 - 28.3.2024**



Bu farw James Mansel Jones ar fore Iau yr 28ain o Fawrth, yn heddychlon yn ei gwsg ac yng nghwmni ei deulu. Ganwyd Mansel yn fab i Samuel a Morfydd Jones, Banc-y-Ffordd, Sir Gaerfyrddin, ac ers 1972 bu'n byw yn Rhiwbeina, Caerdydd. Gweithiodd fel swyddog y wasg a chysylltiadau cyhoeddus i HTV Cymru, S4C a Dur Prydain, a chyn hynny fel newyddiadurwr i'r *Western Mail*, y *Carmarthen Journal* a'r *South Wales Evening Post*, gan ymddeol fel Pennaeth Materion Rhanbarthol ITV Cymru yn 2006. Am flynyddoedd Mansel oedd wyneb a chalon stondin HTV ar Faes yr Eisteddfod Genedlaethol a Sioe Amaethyddol Frenhinol Cymru. Ers ei ymddeoliad, datblygodd ei alwedigaeth fel pregethwr mewn amryw o gapeli ledled De Cymru yn elfen bwysig o'i fywyd.

Roedd yn falch tu hwnt o'i deulu: o'i wraig Kathleen, ei dri mab, ei ferched-yng-nghyfraith a'i wyrion ac wyresau. Arhosodd yn ei gartef yn Heol Wen nes yn agos at ddiwedd ei salwch, ac rydyn ni'n ddiolchgar fel teulu am y gofal a gafodd gan Ysbyty Felindre, cartref Tŷ Llandaf, Hosbis y Ddinas, a'r gofalwyr niferus a roddodd gymaint o gymorth a charedigrwydd iddo. Cafodd Mansel ddylanwad cofiadwy ar fywydau cymaint o bobl yng Nghymru drwy gydol ei yrfa, ac mi fydd ei waith, ei etifeddiaeth a'i atgof yn parhau.

Cyhoeddir manylion angladd Mansel yn fuan. Ar ran y teulu cyfan, diolch i bawb am eu cefnogaeth, dymuniadau da a gweddïau dros y misoedd diwethaf.

*"Gwyn eu byd y rhai sydd yn galaru,*
*canys hwy a ddiddenir."*

*Paul Carey Jones*

## Taith i'r Aifft Ionawr 2024

Aethom ar ein gwyliau ddechrau'r flwyddyn i'r Aifft a gwneud ychydig o ymchwil i hanes y teulu Davies Bryan - yn wreiddiol o Lanarmon a fu'n hynod lwyddiannus yn sefydlu busnes enfawr yn Yr Aifft. Roedd y brodyr Bryan yn ewythrod i'm diweddar Nain, 'Pant y Gynnau' yn Bryn Saith Marchog, (cyfenw fy hen Nain oedd Bryan) a dwi'n cofio hi'n sôn am gyfarfod ei theulu o'r Aifft.

Mabwysiadwyd yr enw Davies Bryan ar eu cwmni. Roedd eu rhieni yn benderfynol iddynt edrych am fywyd gwell a cheisio dechrau busnes eu hunain. Er mwyn cael profiad bu John yn gweithio mewn siopau dillad ym Mostyn a Lerpwl cyn sefydlu busnes gwerthu dillad dynion yn 12, Stryd y Bont, Caernarfon. Tyfodd y busnes yn gyflym; gydag amser roedd tri o'i frodyr wedi ymuno yn bartneriaid ac yn byw yn Segontium Terrace. Yn anffodus nid oedd John yn mwynhau'r iechyd gorau a pherswadiodd ei gefnder - Samuel Evans o Rhosllannerchrugog - oedd yn gweithio yn Yr Aifft - iddo dreulio'r gaeaf 1886-87 yng Nghairo lle roedd yr hinsawdd yn llawer mwy addas ar gyfer ei iechyd bregus. Roedd Samuel yn ddylanwadol iawn yn Yr Aifft cyn symud i Dde Affrica i ddod yn un o'r ffigurau amlycaf yn y diwydiant aur a diemwnt - ond stori arall ydi honno. Oherwydd ei gefndir amaethyddol, treuliodd Samuel y penwythnosau yn prynu a gwerthu camelod, ac felly roedd ganddo ddealltwriaeth dda o'r Eifftwyr. Roedd ymweliad John â'r Aifft wedi ei amseru'n berffaith. Yn dilyn rhyfel 1882, pan lwyddodd Prydain i oresgyn Yr Aifft er mwyn diogelu ei buddsoddiad yng nghamlas Suez, roedd diddordeb mawr gan drigolion cyfoethog Ewrop i dreulio'r gaeaf yn Yr Aifft. Gwelodd John gyfle a sefydlodd fusnes ar lawr gwaelod Gwesty'r Continental i ateb y galw am ddillad moethus.



Llwyddodd y busnes drwy werthu dillad, hetiau ac esgidiau a phob math o bethau moethus wedi eu mewnforio o Ewrop a'u gwerthu am bris sefydlog yn hytrach na tharo bargen rhwng y prynwr a'r gwerthwr fel oedd yr arferiad yn Yr Aifft. I dorri stori hir yn fyr bu'r busnes yn llwyddiannus iawn ac mewn dim o dro agorwyd siop arall yn Alexandria yn 1888.Yn anffodus bu John farw yn 1888 yn 31 mlwydd oed, ond erbyn hynny roedd y brodyr eraill yn rhan o'r busnes yn ogystal â rhedeg y busnes yng Nghaernarfon.

Agorodd y tri brawd - Robert, Joseph ac Edward siopau ychwanegol yn Port Said a Khartoum yn Sudan. Ymhen amser, gwerthwyd y siop yng Nghaernarfon er mwyn canolbwyntio ar siopau yn Yr Aifft. Erbyn 1910 roedd trosiant ac elw'r busnes yn ddigonol i adeiladu siop enfawr yn Nghairo gyda'r enw '*St Davids Building'* oedd ar y pryd yn adeilad masnachol mwyaf yn y wlad.

Do, cawsom gyfle i edrych o gwmpas a thu mewn i'r adeilad. Mae'r llythrennau D a B i'w gweld yn glir uwchben un fynedfa. Ar fynedfa arall gwelsom y geiriau: 'Y GWIR YN ERBYN Y BYD' Hefyd logo Gorsedd y Beirdd ar wal arall. Parhaodd yr enw Davies Bryan & Co ar y siopau tan ganol pumdegau'r ganrif ddiwethaf ac yn cael ei redeg gan gyfrifydd y busnes cyn ei werthu i deulu o Syria. Trwy eu hoes bu'r pedwar brawd yn cyfrannu'n helaeth i'r diwylliant Cymraeg a chyhoeddwyd llythyrau John i'r *Genedl Gymreig* mewn un cyfrol yn 1908 dan y teitl *O'r Aifft*.

Trwy gydol oes cyfrannodd y teulu yn helaeth i wahanol fudiadau yng Nghymru a'r Aifft ond efallai mai'r cyfraniad mwyaf nodedig oedd pan brynwyd 85 acer ym Mhenglais Aberystwyth i ehangu'r Llyfrgell ac i ehangu adeiladau'r Brifysgol. Mae'r llyfr 'O Gamddwr i Cairo' gan Sian Wyn Jones yn adrodd eu hanes yn fanwl ac mae pentyrrau o wybodaeth am hanes y teulu yn Llyfrgell Caernarfon.

*Caerwyn Williams, Llandaf*

# Y DIGWYDDIADUR

## Ebrill

**Iau, 11 Ebrill**
Cylch Cinio Merched Caerdydd. Clwb Golff Llanisien (CF14 9UD) am 7.30pm. Siaradwraig: Betsan Llwyd, Cyfarwyddydd Theatr Bara Caws. Am fanylion pellach, cysyllter â'r Cadeirydd, Elin Tudur (etudur@aol.com; 07768-095678).

**Iau, 11 Ebrill**
'Cythrel Cerdd'. Noson o adloniant gydag Alwyn Humphreys ac Ensemble Llinynnol Pops Cymru, yn Neuadd Kings Road Yard, Pontcanna, am 8.00pm. Tocynnau (£10) yn Caban neu wrth y drws.

**Gwener, 12 Ebrill**
Cymrodorion Caerdydd. Sgwrs gan Dr Elin Jones ar y testun 'Dyfed yr Archdderwydd'. Trwy gyfrwng Zoom am 7.30pm. Y tâl aelodaeth am y flwyddyn yw £10; y pris mynediad i gyfarfod unigol yw £3 (ond yn rhad ac am ddim i aelodau). I dalu ac i dderbyn dolen Zoom, anfonwch at cymrodorioncaerdydd@gmail.com. Croeso cynnes i bawb.

**Gwener, 12 Ebrill**
Noson codi arian i Eisteddfod Genedlaethol Rhondda Cynon Taf. Bydd y Prifardd Cyril Jones yn holi dau o ddalgylch yr Eisteddfod sydd wedi gweithio'n ddiwyd dros y Gymraeg, sef Rhuanedd Richards o Gwm Cynon a Cennard Davies o Gwm Rhondda, yn Hen Ysgoldy'r Eglwys (sef 'The Old Church Rooms') yn Radur am 7.30pm. Tocynnau: £10 (ar gael gan Allan Cook drwy e-bostio cookatrady-r222@gmail.com).

**Sadwrn, 13 Ebrill**
Bore Siarad Cymraeg (lefel ganolradd ac uwch). Dewch i ymarfer eich Cymraeg a gwrando ar sgwrs am Ddewi Sant gan Dr Dewi Alter, yn Hyb Rhiwbina (CF14 6EH) am 10.30am. Yn rhad ac am ddim. Dan nawdd Eglwys Efengylaidd Gymraeg Caerdydd. Croeso cynnes i bawb.

**Llun, 15 Ebrill**
Menter Caerdydd. Cerdded a Chlonc ym Mharc Bute, rhwng 2.00 a 3.30pm. Am ddim. Yn addas ar gyfer siaradwyr Cymraeg ar bob lefel. I gofrestru ac am ragor o fanylion, cysylltwch â Rachel (rachel@mentercaerdydd.cymru).

**Llun, 15 Ebrill**
Cymdeithas Gymraeg Rhiwbeina. Bydd Geraint Rees yn mynd â ni ar 'daith Gymreig o amgylch Lloegr', yng nghapel Bethel, Maes-y-deri, Rhiwbina, CF14 6JJ, am 7.30pm. Manylion pellach gan yr Ysgrifennydd, Dilwyn Jones (dilwynjones51@hotmail.com; 029-2062-0653). Croeso cynnes i bawb.

**Mawrth, 16 Ebrill**
Cymdeithas Gymraeg Rhiwbeina. Noson Cwis a Chyri yn y 'Rec' Rhiwbina am 7.00pm. Mae croeso i bawb ond bydd angen cael tocynnau (£12) ymlaen llaw oddi wrth unrhyw un o aelodau'r Pwyllgor. Bydd elw'r noson yn mynd tuag at Apêl Eisteddfod Genedlaethol Rhondda Cynon Taf. Manylion pellach gan yr Ysgrifennydd, Dilwyn Jones (dilwynjones51@hotmail.com; 029-2062-0653).

**Gwener, 19 Ebrill**
Cylch Cadwgan. Noson yng nghwmni Roy Noble, yn y Ganolfan, Tabernacl, Efailisaf, am 8.00pm. Fe'i trefnir gan Gymdeithas Gymraeg Llantrisant. Am fanylion pellach, cysylltwch ag Ysgrifennydd Cylch Cadwgan, y Prifardd Glenys M. Roberts (groberts@btinternet.com).

**Sadwrn–Gwener, 20–26 Ebrill**
Theatr Genedlaethol Cymru yn cyflwyno 'Parti Priodas', drama gomedi gan Gruffudd Owen, yn Theatr Sherman. Manylion pellach: https://www.shermantheatre.co.uk/event/parti-priodas/?lang=cy

**Llun, 22 Ebrill**
Menter Caerdydd. Sgwrs gan yr Athro M. Wynn Thomas (Prifysgol Abertawe) ar y testun 'Dewis 12 o emynau mwyaf apelgar Cymru'. Trwy gyfrwng Zoom am 7.30pm. Am ddim. I gofrestru, cysylltwch â Rachel Matthews (rachel@mentercaerdydd.cymru).

**Llun, 29 Ebrill**
Menter Caerdydd. 'Mewn Tiwn', yng nghwmni'r pianydd Ben Pinnow. Cyngerdd gymunedol yng Nghanolfan Beulah, Rhiwbina, am 11.30am. Am ddim. Nid oes angen tocyn, ond am ragor o wybodaeth, cysylltwch â Rachel Matthews (rachel@mentercaerdydd.cymru).

## Mai

**Sadwrn, 4 Mai**
Taith gwylio adar fisol dan arweiniad Eirian a Gwilym Dafydd, yn dechrau am 10.00am. Am ddim. Am ragor o wybodaeth, anfonwch at eirianagwilym@gmail.com.

**Mercher, 8 Mai**
Merched y Wawr, Cangen Bro Radur (ar y cyd â Gŵyl Radur). Noson yng nghwmni Ian Gwyn Hughes, yn Ysgoldy Eglwys Crist, Heol Isaf, Radur, am 7.30pm. Am fanylion pellach, cysylltwch â Gwen Emyr (gwen.emyr@gmail.com; 029-2084-8545).

**Sadwrn, 11 Mai**
Bore Siarad Cymraeg (lefel ganolradd ac uwch). Dewch i sgwrsio ac ymarfer eich Cymraeg, a gwrando ar Elizabeth James yn cael ei holi am ei thaith ieithyddol o Whitby i'r Eglwys Newydd, yn Hyb Rhiwbina (CF14 6EH) am 10.30am. Yn rhad ac am ddim. Dan nawdd Eglwys Efengylaidd Gymraeg Caerdydd. Croeso cynnes i bawb.

**Sadwrn, 11 Mai**
Noson Owain Glyndŵr. Dewch i ddysgu am hanes Owain Glyndŵr a gêm newydd Geraint Thomas, yn Neuadd yr Eglwys, Creigiau, am 7.30pm. Noson o hwyl i'r teulu cyfan wedi ei threfnu gan Glwb Gwawr Crotesi Creigiau a'r Cylch i godi arian at Eisteddfod Genedlaethol Rhondda Cynon Taf. Tocynnau (£10 i oedolion a £3 i blant) gan Teleri Jones: telerij@yahoo.com.

**Llun, 13 Mai**
Cylch Cinio Cymraeg Caerdydd. Yng Ngwesty'r 'New House', Heol y Ddraenen, Draenen Pen-y-graig (*Thornhill*), Caerdydd, CF14 9UA, am 7.00 ar gyfer 7.30pm. Pris: £28 yr un. Siaradwraig wadd: Dr Manon Antoniazzi (Prif Weithredwr y Senedd). Croeso cynnes i bawb, yn arbennig i gyfeillion newydd. Am ragor o fanylion, cysylltwch â'r Ysgrifennydd, Paul Morgan, ar 07761-696286 neu cylch.cinio@gmail.com.

**Mawrth, 14 Mai**
Menter Iaith Bro Morgannwg. Cerdded a Chlonc rhwng Ynys y Barri a'r Cnap, rhwng 10.30 a chanol dydd. Am ddim. Yn addas ar gyfer siaradwyr Cymraeg ar bob lefel. I gofrestru ac am ragor o fanylion, cysylltwch â Rachel Matthews (rachel@mentercaerdydd.cymru).

**Anfonwch fanylion ar gyfer Y Digwyddiadur at Yr Athro E. Wyn James 16 Kelston Rd, Yr Eglwys Newydd, Caerdydd, CF14 2AJ (029-2062-8754; JamesEW@caerdydd.ac.uk).**

# Llys a Llan

*Colofn sy'n crwydro ar hyd meysydd llên, crefydd a hanes yng Nghaerdydd a'r Fro*

## Yr Athro E. Wyn James



**Anna Waring, Iolo Morganwg, a Chrynwyr Castell-nedd a Chernyw (Rhan 4 )**

Tua 1811 symudodd Elijah Waring (1787–1857) o Alton yn Hampshire i Gymru, i Abertawe i ddechrau ac yna i Gastell-nedd yn 1814. Er na ddaeth yn rhugl yn y Gymraeg, yn fuan wedi iddo symud i Forgannwg dechreuodd ymddiddori yn hanes a hynafiaethau Cymru. Yn wir – fel y nodwyd yn ein herthygl yn y rhifyn diwethaf o'r *Dinesydd* – cymaint oedd diddordeb Elijah Waring yng Nghymru, ei hanes a'i diwylliant, fel y gallai Eben Fardd ddweud mewn englynion coffa iddo, 'Carodd, anwylodd hen Walia.'

Erbyn 1813 roedd Elijah wedi dod yn gyfeillgar â Iolo Morganwg (Edward Williams, 1747–1826), a diau mai dylanwad Iolo oedd rhan o'r ysgogiad iddo ymddiddori gymaint yn hanes a diwylliant Cymru. Mae enw Elijah Waring yn gyfarwydd i unrhyw un sy'n astudio bywyd a gwaith Iolo Morganwg am iddo gyhoeddi'r gyfrol *Reflections and Anecdotes of Edward Williams* yn 1850. Fel y nodwyd y tro diwethaf, mae'r gyfrol honno'n ffynhonnell bwysig ar gyfer Iolo, ei gymeriad, ei arferion a'i ddiddordebau – er bod rhaid cymryd yr hyn a adroddodd Iolo wrth Elijah am ei hanes ef ei hun ac am hanes a diwylliant Cymru â phinsied go fawr o halen, oherwydd dychymyg byrlymus Iolo! Ond nid ei gyfrol am Iolo Morganwg oedd unig gyfraniad Elijah Waring i lenyddiaeth Cymru.

Yn gynharach yn y gyfres hon o erthyglau am Grynwyr Castell-nedd a'r cyffiniau, soniwyd am Anna Letitia Waring (1823–1910), merch Elijah, ei phoblogrwydd yn ei dydd fel bardd ac emynydd Saesneg, a'r ffaith fod un o'i hemynau, '*In heavenly love abiding*', yn parhau yn boblogaidd heddiw. Roedd Charles Henry Waring (1818–87), brawd Anna, yntau'n barddoni, ac nid yw hynny'n annisgwyl, mewn gwirionedd, o gofio nid yn unig fod eu tad, Elijah, yn barddoni ond fod brawd a chwaer Elijah hefyd yn feirdd cyhoeddedig.

Ymddangosodd *Sacred Melodies*, cyfrol o gerddi ac emynau gan frawd Elijah, Samuel Miller Waring (1792–1827), yn 1826. Mae ei fawlgân, '*Now to Him who loved us*', i'w gweld mewn casgliadau emynau hyd heddiw, ac fe'i cyhoeddwyd yn rhangan i SATB, ynghyd â geiriau Cymraeg, 'Iddo Ef a'n carodd', a cherddoriaeth gan Sydney Northcote (1897–1968) o Gwm Rhymni, gan Gwmni Cyhoeddi Gwynn yn 1938. Cynhwyswyd sawl darn o farddoniaeth gan Samuel yn *The Cambrian Visitor*, y cylchgrawn byrhoedlog a gyhoeddwyd yn Abertawe dan olygyddiaeth Elijah yn 1813, gan gynnwys cerdd hir yn dwyn y teitl '*Recollective thoughts, connected with scenery on the Wye*'; a gwelwyd hefyd nifer o gerddi gan Elijah ei hun ar dudalennau'r cylchgrawn hwnnw.

Yn 1832, cyhoeddodd Sarah Waring (1791–1871), chwaer ieuangaf Elijah, gyfrol sylweddol o ysgrifau a cherddi am adar, *The Minstrelsy of the Woods*, ynghyd â lluniau o nifer o'r mathau gwahanol o adar. Mae'n amlwg fod gan Sarah ddiddordeb byw ym myd natur, gan iddi gyhoeddi yn 1827 gyflwyniad ar gyfer pobl ifainc i fywyd y botanegydd enwog o Sweden, Carl Linnaeus (1707–78), a chyhoeddi hefyd yn yr un flwyddyn y gyfrol *The Wild Garland; or, prose and poetry connected with English wild flowers*, sydd eto â llawer o luniau ynddi.

Dywed Sarah Waring ar ddechrau'r *Minstrelsy of the Woods* ei bod yn cyflwyno'r gyfrol i blant ei brawd, Elijah, '*for whose amusement these sketches of natural history were commenced*', ac yna mae'n eu cyfarch ar gân. Dyma ran o'i cherdd iddynt:

> *Young wanderers by the mountain-streams,*
> *Whose days are all like sunny dreams,*
> *To you, from woodlands far away,*
> *I come, with legend and with lay:* […]
>
> *Young dwellers in Glamorgan's vale,*
> *Who listen to my woodland tale,*
> *For you, where'er your footsteps rove,*
> *O'er moor or mountain, mead or grove,*
> *May some sweet wild bird hovering near,*
> *Your course with gentle music cheer!*

O dan y gerdd ceir 'WYARDS, *November*, 1831'. Fferm ychydig i'r gorllewin o Alton yn Hampshire yw Wyards, a dyna hefyd oedd cyfeiriad Sarah Waring pan enillodd gystadleuaeth yn yr Eisteddfod Daleithiol a gynhaliwyd yng Nghaerdydd ym mis Awst 1834, am faled Saesneg ar longddrylliad y *Frolic* oddi ar arfordir Bro Morgannwg i'r dwyrain o Borth-cawl ym mis Mawrth 1831. Pacedlong ager (*packet steamer*) oedd y *Frolic* a gludai bobl a nwyddau yn rheolaidd rhwng Hwlffordd a Bryste. Collwyd pawb oedd ar ei bwrdd – 15 o griw a 63 o deithwyr, yn cynnwys llawer o wragedd a phlant, yn ôl un amcangyfrif – a chanlyniad uniongyrchol y drychineb oedd codi dau oleudy ar Drwyn yr As (*Nash Point*) yn 1832.

Mae'r ffaith fod Sarah Waring wedi cystadlu yn yr Eisteddfod Daleithiol yng Nghaerdydd yn 1834 yn tanlinellu fod ei brawd, Elijah, yn symud mewn cylchoedd diwylliannol Cymreig a Chymraeg dylanwadol. Er enghraifft, roedd yr Aelodau Seneddol, Josiah John Guest a Benjamin Hall ('Big Ben'), ymhlith Is-Lywyddion Eisteddfod Caerdydd yn 1834. Enillodd

Augusta, gwraig Benjamin Hall – Arglwyddes Llanofer yn ddiweddarach – wobr yn yr Eisteddfod honno, dan y ffugenw 'Gwenynen Gwent', am draethawd Saesneg (gyda chyfieithiad Cymraeg) ar '*the advantages resulting from the preservation of the Welsh language, and the national costumes of Wales*'; a Taliesin, mab Iolo Morganwg, a ddyfarnwyd yn fuddugol am yr awdl orau ar y testun 'Derwyddon Ynys Prydain'. Tri chlerigwr amlwg iawn yn y bywyd diwylliannol Cymraeg oedd beirniaid y cystadlaethau barddol a'r traethodau, sef Thomas Price ('Carnhuanawc'), Daniel Ddu o Geredigion a W. Bruce Knight.

Soniwyd yn ein herthygl yn y rhifyn diwethaf o'r *Dinesydd* fod Elijah Waring yn bresennol mewn cinio a drefnwyd gan Josiah John Guest (1785–1852), perchennog Gwaith Haearn Dowlais, ym mis Medi 1837, a'i fod wedi cynnig llwncdestun yno i Ivor Bertie, mab bach Josiah John a'i wraig, Charlotte. Mae Charlotte Guest (1812–95) yn enwog, wrth gwrs, am ei chyfieithiad o'r Mabinogion i'r Saesneg. Dechreuodd gyhoeddi ei chyfieithiad yn rhannau o 1838 ymlaen a'i gyflwyno i'w dau fab hynaf, Ivor Bertie a Thomas Merthyr (y naill wedi ei eni yn Awst 1835 a'r llall yn Ionawr 1838). Mae'n werth dyfynnu'r cyflwyniad hwnnw i'w meibion, wedi ei ddyddio '*Dowlais, August 29th, 1838*', oherwydd y gwres gwladgarol Cymreig sy'n rhedeg trwyddo – a hynny'n fwy trawiadol fyth o gofio nad Cymraes mohoni o ran ei genedigaeth na'i thras:

> *My dear Children,*
>
> *Infants as you yet are, I feel that I cannot dedicate more fitly than to you these venerable relics of ancient lore, and I do so in the hope of inciting you to cultivate the Literature of 'Gwyllt Walia,' in whose beautiful language you are being initiated, and amongst whose free mountains you were born.*
>
> *May you become early imbued with the chivalric and exalted sense of honour, and the fervent patriotism for which its sons have ever been celebrated.*
>
> *May you learn to emulate the noble qualities of Ivor Hael, and the firm attachment to your Native Country, which distinguished that Ivor Bach, after whom the elder of you was named.*

Cafodd cyfieithiad Charlotte Guest dderbyniad cynnes iawn. Daeth yn boblogaidd ac yn ddylanwadol, ac nid yn y byd Saesneg yn unig, oherwydd fel y dywedodd yr Athro Sioned Davies o Ysgol y Gymraeg, Prifysgol Caerdydd – y cyhoeddwyd ei chyfieithiad Saesneg hi o'r Mabinogion gan Wasg Prifysgol Rhydychen yn 2007 – '*as a direct result of Guest's translation, medieval Welsh literature was placed on the European stage*'.

Fel y nodwyd uchod, dechreuwyd cyhoeddi cyfieithiad Charlotte Guest mewn rhannau o 1838 ymlaen, ond yr hyn sy'n ddiddorol yn y cyd-destun presennol yw iddi gael ei hysbrydoli i ymgymryd â'r dasg yn sgil sgwrsio ag Elijah Waring yn 1835.

Ymwelodd Elijah â Dowlais i drafod materion busnes ym mis Hydref 1835, tua'r adeg y penodwyd ef yn rheolwr banc yng Nghaerdydd. Yn y mis Hydref hwnnw y sefydlwyd y 'Taf Vale Railway Company', a Josiah John Guest yn gadeirydd arno. Dyna'r cwmni a



***Ffynhonnell y llun o Charlotte Guest: Llyfrgell Genedlaethol Cymru***

lwyddodd erbyn 1841 i agor rheilffordd rhwng Merthyr a Chaerdydd. Roedd Elijah Waring yn frwd ei gefnogaeth i'r cynllun hwnnw, gan ddod maes o law yn un o gyfarwyddwyr y cwmni; a thybed ai un o'i resymau dros ymweld â Dowlais yn niwedd 1835 oedd er mwyn trafod y rheilffordd arfaethedig?

Bid a fo am hynny, cawn Charlotte Guest yn dweud hyn am Elijah Waring yn ei dyddiadur, wedi iddi ei gyfarfod yn Nowlais ym mis Hydref 1835: '*I find he is somewhat acquainted with ancient literature.* […] *He is the only person I have found so in this country except George Clark.*' (Roedd y peiriannydd a'r hynafiaethydd G. T. Clark yn gyfaill i'w gŵr.) Cyfarfu Charlotte ag Elijah unwaith eto y mis nesaf, ac meddai yn ei dyddiadur yr adeg honno: '*Our conversation turned much upon the superstitions and legends of Wales – I think it might be desirable to make a collection of them. His love for ancient literature is quite refreshing to me who have been so long deprived of everything like fellow feeling in that respect.*' Gwelwn, felly, fod gan Elijah Waring ran allweddol yn nechreuadau cyfieithiad enwog a dylanwadol Charlotte Guest o'r Mabinogion.

Yn 1817 priododd Elijah Waring â Deborah Price, merch i deulu o Grynwyr a symudodd o Gernyw i gyffiniau Castell-nedd yn nechrau'r 19eg ganrif pan ddaeth ei thad yn rheolwr Gwaith Haearn Mynachlog Nedd. A dyma Elijah, felly, yn priodi i deulu a wnaeth gyfraniad pwysig ym myd masnach a diwydiant, a hefyd yn ddiwylliannol a dyngarol – ond rhagor am hynny y tro nesaf.

(*I'w barhau*)

# NEWYDDION O'R EGLWYSI

## SALEM, TREGANNA



**Gŵyl Ddewi**

Cafwyd Gwasanaeth Gŵyl Ddewi hyfryd ddechrau mis Mawrth, gyda chyfraniadau gan rai o blant a phobl ifanc Salem; diolch yn fawr iddyn nhw a'u hathrawon am eu gwaith paratoi. Dilynwyd hynny gan yr hyn sydd wedi dod i gael ei adnabod fel "Paned Posh" yn y festri. "Paned Posh" yw bara brith, cacen gri a phaned, a'r cyfan wedi'u gweini gan bobl ifanc y capel. Roedd yn gyfle arbennig i eistedd i lawr, cael sgwrs, a chymdeithasu. Mor braf oedd gweld y festri'n llawn ar gyfer yr achlysur.

**Gwasanaethau**

Cofiwch am drefn gwasanaethau'r Sul. Mae oedfa'r bore am 10.30 yn dilyn y patrwm arferol, a bydd patrwm oedfa'r hwyr yn para tan ddiwedd mis Mai.

Nos Sul gyntaf pob mis, ar y cyfan – Oedfa arferol yn festri Salem am 6.00pm o dan ofal Evan.

Pob nos Sul arall - oedfa Zoom fer yn dilyn y patrwm a welwyd yn ystod cyfnod COVID.

**Gweithgareddau eraill**

**Clwb Brecwast** i rieni a phlant / babanod o dan oed meithrin.

Bore Mercher 10 a 24 Ebrill ac 8 Mai rhwng 9.45 a 11.15

**Clwb Coffi** – fore Gwener 12 Ebrill rhwng 11.00 a 12.00. Croeso i unrhyw un ymuno am goffi, sgwrs a chwmnïaeth.

**Clwb y Bobl Ifanc** – nos Wener 12 Ebrill – Ymweliad â "Boulders"

**Adran Salem** – nos Iau 11 a 25 Ebrill rhwng 6.00 a 7.00. Croeso i bawb.

Os hoffech chi gael rhagor o fanylion am ein gweithgareddau neu ein gwasanaethau, beth am ein dilyn ar Facebook, neu ewch i wefan Salem: Capelsalem.org.

## BETHEL, RHIWBEINA

Yn ystod y mis diwethaf cawsom gyfle i groesawu'r Parch. Aled Edwards a Gwyndaf Roberts, ac ar ddau ddydd Sul ein gweinidog, y Parch. Evan Morgan oedd yn pregethu. Ni fydd gwasanaeth yn y capel ar Sul y Pasg ond bydd cyfle i ymuno gyda'r aelodau yn Salem.

Danfonwn ein cofion a'n cydymdeimlad at Mair Davies a gollodd ei brawd ieuenngaf yn ddiweddar. Danfonwn hefyd ein dymuniadau gorau at Mair ac Arthur Jones. Mae Mair yn wael ers sawl blwyddyn ac rydym yn gweld eisiau'r ddau yn y capel ar fore Sul.

Aeth nifer o aelodau i'r Hyb yn Rhiwbeina yn ddiweddar i glywed Gwilym Roberts yn siarad am Bentre Gerddi Rhiwbeina. Mae Gwilym wedi byw yn Rhiwbeina ers ei blentyndod ac mae ei atgofion gan gynnwys y rhai am yr Ail Ryfel Byd yn rhyfeddol ac yn wir werth eu clywed. Rydym yn dymuno'n dda i Janice Walters sydd wedi penderfynu symud yn ol i'r gorllewin.

Ym mis Ebrill byddwn yn dathlu 25 o flynyddoedd o wasanaeth ein gweinidog. Edrychwn ymlaen yn fawr at y cinio a'r hwyl a'r cwmni.

## EGLWYS MINNY STREET

www.minny street.or @MinnyStreet
Gweinidog: Y Parch. Owain Llŷr Evans

**Diwedd tymor y Gymdeithas**

Daeth tymor gweithgarwch llwyddiannus y Gymdeithas i ben â dau gyfarfod – noson gerddorol gofiadwy yng nghwmni Geraint Lewis, a Chinio Pen Tymor yng Nghlwb Golff yr Eglwys Newydd yng nghwmni Dr Angharad Wyn, ein gwestai arbennig.

**Oedfaon y Sul a'r Ysgol Sul**

Edrychwn ymlaen at arweiniad ein Gweinidog yn oedfaon Sul y Pasg, 7 (oedfa gymun yn yr hwyr), 14 a 21 Ebrill. Bydd cyfle i longyfarch a dathlu llwyddiant Tomi Roberts-Jones yn yr oedfa foreol i'r teulu fore Sul, 14 Ebrill. Byddwn yn croesawu'r Parch. Glyn Tudwal Jones i arwain yr addoliad ddydd Sul, 28 Ebrill. Yn ystod oedfaon bore Sul 7, 21 a 28 Ebrill y bydd yr Ysgol Sul yn cyfarfod a bydd cyfle i PIMS ddod ynghyd am 17:00 ar 7 Ebrill.

**Gweithgarwch y mis**

Mae gweithgareddau mis Ebrill yn cynnwys tair sesiwn Bethania (2, 16 a 30 Ebrill) a *Pasg a Phasg* nos Fawrth, 23 Ebrill. Bydd cyfle i fwynhau bore coffi yng nghartref aelod fore Gwener, 5 Ebrill a phryd o fwyd gyda'r hwyr (Koinônia) nos Sul, 21 Ebrill. Minny Street fydd yn cynorthwyo gyda darpariaeth y Ganolfan Glyd yn y Tabernacl, yr Ais brynhawn Sul, 28 Ebrill.

## YR EGLWYS EFENGYLAIDD

**Aelodau Newydd**

Braint a llawenydd yn ddiweddar oedd croesawu Meirion a Ceri Thomas, ac Owain ac Elizabeth James yn aelodau newydd. Edrychwn ymlaen yn fawr at gael mwynhau eu cwmni a'u cymdeithas.

**Paratoi at y Pasg**

Yn yr wythnosau yn arwain lan at y Pasg mae Emyr James, ein gweinidog, wedi bod yn edrych ar Ganeuon y Gwas Dioddefus yn llyfr Eseia. Mae'r Caneuon yma yn proffwydo dyfodiad y Meseia a'i ddioddefaint drosom. Cofiwn am y geiriau enwog yn Eseia 53, 'Rydym ni i gyd wedi crwydro fel defaid, pob un yn troi i'w ffordd ei hun; a rhoes yr Arglwydd arno ef ein beiau ni i gyd.'

**Pregethwyr Gwadd**

Roedd yn bleser cael Owain James, un o blant yr eglwys, yn pregethu ar fore Sul yn ddiweddar. Soniodd am awdurdod Iesu Grist dros ei farwolaeth ei hun a'r ffaith iddo fynd i'r groes yn wirfoddol. Ond pwysleisiodd hefyd ufudd-dod Crist wrth wynebu cymryd cosb ein pechodau arno ef ei hun.

**Gwyliau'r Capel**

Yn ystod wythnos gynta gwyliau'r Pasg aeth tua hanner cant ohonom am ddwy noson i ganolfan Gristnogol ger Ledbury, swydd Henffordd. Mae hyn bellach yn ddigwyddiad blynyddol a phawb, yn enwedig y plant, yn edrych ymlaen yn fawr ato. Cawsom ddeuddydd hapus yng nghwmni'n gilydd yn ymlacio, sgwrsio, chwarae gemau a gwrando ar rannau o'r Beibl yn cael eu hesbonio.

## EBENESER

### Dydd Gweddi'r Byd

Cynhaliwyd gwasanaeth Dydd Gweddi'r Byd ar gyfer eglwysi Cylch Caerdydd ar Fawrth 1af 2024 yn yr Eglwys Fethodistaidd, yn yr Eglwys Newydd. Paratowyd y gwasanaeth eleni gan ferched Palesteina. Cymerwyd rhan gan aelodau capeli Cymraeg Caerdydd a chafwyd cefnogaeth gref ganddynt i gyd. Diolch i'r tîm o Ebeneser a fu'n paratoi'r capel, y festri a'r baned ac i bawb fu wrthi'n helpu ac i aelodau capeli eraill Caerdydd am gyfrannu'r holl gacennau blasus iawn!

### Gŵyl Ddewi

Cafwyd oedfa deuluol arbennig ar y 3ydd o Fawrth gyda phlant ac oedolion yn cymryd rhan. Yn dilyn yr oedfa cawsom gawl, pice ar y maen a chacennau i ddathlu, a chyfle i godi arian ar gyfer ein helusen am eleni, Ffynhonnau Byw. Llwyddwyd i godi tua £200.


### Cydymdeimlad

Trist iawn oedd clywed y newydd am farwolaeth Rhiannon Stanley Jones, Y Rhath, ar y 27ain o Chwefror. Cydymdeimlwn gyda Siwan, Sioned a'r teulu cyfan yn eu colled a'u hiraeth. Cynhelir ei hangladd yn Nghapel y Wenallt, Amlosgfa Thornhill ar 27ain o Fawrth am 11.00 y bore.

Bu Helen Hilling farw ar y 7fed o Fawrth ar ôl cyfnod hir o salwch. Pob cydymdeimlad â Shelagh, a David, a'r teulu cyfan yn eu colled a'u hiraeth. Cynhelir yr angladd ar 2ail o Ebrill yn Nghapel y Wenallt, Amlosgfa Thornhill am 11.30 y bore.

### Llyfrynnau'r Pasg

Rhannwyd copïau o lyfrynnau'r Pasg, 'Syrpreis Rhyfeddol y Pasg' i ddisgyblion blwyddyn 6 Ysgol Melin Gruffydd.




### Carreg filltir

Pen-blwydd hapus arbennig iawn i Annick Moseley, ddathlodd ei phen -blwydd yn 80 oed ar y 5ed o Fawrth yng nghwmni'r teulu. Pob dymuniad da iddi. A phenblwydd hapus i Tudur Jones ymunodd â chlwb 60 ar 16eg o Fawrth.

### Sul y Sannau

Diolch i bawb gefnogodd 'Sul y Sanau' ar ddydd Sul, Mawrth 24ain. Llenwyd dau dwba mawr gyda rhoddion o sanau ar gyfer y di -gartref yng nghanol Caerdydd. Mae Ebeneser yn cefnogi cynllun Y Ganolfan Glyd a leolir yn Eglwys Tabernacl, yr Ais ar brynhawn dydd Mercher ac ar y Sul.

## BETHLEHEM, GWAELOD-Y-GARTH

**Oedfaon ac Ysgol Sul [YS] (am 10:30 a.m. oni nodir yn wahanol):**
**Ebrill 2024:**

7fed – Oedfa Gymun dan ofal Delwyn Sion [Dim YS]
14eg – Arwel Ellis Owen
21ain – Oedfa Ardal
28ain - Parchedig Robert Owen Griffiths [YS + Uwchradd]

Mae'r Pasg yn gynnar eleni, a bydd Gwener y Groglith a Sul y Pasg wedi hen basio erbyn i'r rhifyn yma o'r *Dinesydd* ganfod golau dydd. Ac fel y gŵyr pawb ohonoch sy'n paratoi pytiau i'w cynnwys yn y papurau bro, mae'n rhaid wrth ddycnwch a disgyblaeth er sicrhau bod unrhyw gyfraniad yn cyrraedd dwylo'r golygydd mewn da bryd – y "dedleins" fel mae'r wasg yn eu galw!

Mae'r Pasg yn amrywio o ran ei leoliad yn ein calendr ni – gall fod mor gynnar â'r 22ain o Fawrth, neu mor hwyr â'r 25ain o Ebrill, a'r cyfan yn cael ei benderfynu gan ymddangosiad y lleuad llawn yn y ffurfafen. Dethlir y Pasg ar y dydd Sul cyntaf ar ôl y Lleuad Lawn *Paschal*. (*Pascha* yw'r gair a ddefnyddir gan Gristnogion y Dwyrain, yn Gatholig, ac yn Uniongred, ar gyfer y Pasg).

Penderfynwyd ar "fformiwla" cyfrifo'r Pasg yng Nghyngor Nicaea yn y flwyddyn 325 a dyma fel yr eglurir ar un gwefan a welais: "*At ddibenion cyfrifo, dywedodd Cyngor Nicaea fod y lleuad llawn bob amser yn cael ei osod ar y 14eg diwrnod o'r mis llwyd. (Mae'r mis llwyd yn dechrau gyda'r lleuad newydd.) Gelwir hyn yn lleuad llawn eglwysig; efallai y bydd y lleuad llawn seryddol yn disgyn diwrnod felly, neu cyn, neu ar ôl y lleuad llawn eglwysig*."

Yn 1818 roedd y Pasg diwethaf ar yr 22ain o Fawrth, a bydd yn rhaid disgwyl tan y flwyddyn 2285 cyn i hynny ddigwydd eto! Yn 1943, roedd y Pasg ar y 25ain o Ebrill, a chewch edrych 'mlaen at Basg yn yr un cyfnod yn 2038. Pryd bynnag y dathlwn – Pasg hapus i chwi oddi wrth bawb ym Methlehem, Gwaelod-y-garth.

## TABERNACL, YR AIS

Cawsom wledd o ganu ganol mis Mawrth gan Gôr Heol y March. Roedd safon y canu gan y côr, sydd wedi ennill sawl cystadleuaeth gerddorol, yn arbennig o uchel.

Gwynn Matthews oedd y siaradwr gwadd yn ein Cymdeithas am Ddau mis Chwefror. 'Dau fyd, dwy gymdoges' oedd teitl ei anerchiad. Cawsom stori am ddwy ferch oedd yn byw yn agos at ei gilydd yn Sir Ddinbych yn y ddeunawfed ganrif, gan nodi hanesion y ddwy yn drwyadl.

Ar ddechrau Mis Mawrth, braint oedd cael gweld cyfraniad y Tabernacl i'r rhaglen 'Dechrau Canu, Dechrau Canmol'. Cafodd ein gweinidog ei chyfweld gan Lowri Morgan yn y capel, ac roedd sgwrs gan Ruth Davies ynglyn â'r llyfr 'Codi'r Llen: Merched yr Hen Destament a'u dewisiadau'.

Fe gafodd y Clwb Darllen noson hwylus wrth drafod *'Trespasses'* gan Louise Kennedy. Nofel yw hon sydd yn olrhain amser y 'Trafferthion' yng Ngogledd Iwerddon. Roedd pawb yn gytun bod y llyfr ymysg y gorau a ddarllenwyd ers dechrau'r clwb. 'Sut i Ddofi Corryn' gan Mari George yw'r dewis y tro nesaf.

Pan groesawyd y Parch. Sian Elin Thomas i bregethu yn y Tabernacl, nid hi yn unig a laniodd yn y capel. Daeth â chriw o ofalaeth Bro Cemaes Dyffryn Teifi yn gwmni iddi. Fel arwydd o'u gwerthfawrogiad, cyflwynwyd llun o fynyddoedd y Preseli ar lechen, a matiau bychain gyda lluniau o eglwysi Sian Elin, yn rhodd i'r Tabernacl.

Mawr yw ein diolch i'r canlynol am eu parodrwydd i gynnal oedfaon yn ystod y mis: Plant yr Ysgol Sul, ein Gweinidog Y Parch. Ddr Rosa Hunt, Miss Natalie Morgan, Mrs Lynne Lewis, Ton Teg a'r Parch. Simeon Baker.

## EGLWYS Y CRWYS

**Cyfarchion**

Dymunwn yn dda i'r Dr Diana Evans a Cerian Angharad sydd wedi bod yn anhwylus yn ddiweddar. Adferiad buan i chi'ch dwy.

Llongyfarchiadau i Emyr Gruffydd ar gael ei benodi yn Uwch Gyfieithydd ym Mhrifysgol Caerdydd. Pob dymuniad da, Emyr.

**Y Gymdeithas**

Cynhaliwyd noson Cawl a Chân dan ofal Y Gymdeithas i ddathlu Gŵyl Dewi. Mwynhawyd gwledd o gawl a chyfraniad gwych Côr Aelwyd y Waun Ddyfal. Diolch i Cerian Angharad am y trefniadau.

Cafwyd noson ddifyr eto dan nawdd Y Gymdeithas, gyda sgwrs gan Mr Emyr Jenkins am ei gyfaill bore oes, Y Tad Barnabas, brodor o Bennal, a ymunodd â'r Eglwys Uniongred. Treuliodd beth amser ym Mharis cyn sefydlu Mynachlog yn Nyfnaint ac yna yn Felin Newydd, Sir Drefaldwyn. Tra'n gweithio yn y BBC ar Radio Cymru yn 1970 gwnaeth Emyr Jenkins gyfweld â'r Tad Barnabas, a chawsom y fraint o wrando ar y recordiad gwreiddiol pryd yr arweiniodd y Tad Barnabas y digwyddiadau yn arwain at y Pasg yn yr Eglwys Uniongred. Sgwrs hynod o ddiddorol a diolch i Emyr am ei gyfraniad.

**Yr Ysgol Sul**

Mae'r drefn o gynnal yr Ysgol Sul am 5.00 y prynhawn yn llwyddiant mawr. Braf yw gweld cynifer o blant yn mynychu ac yn mwynhau y gwahanol weithgareddau a pizza ar y diwedd! Diolch i Hannah Thomas a'r rhieni am eu gweledigaeth.

**Trefn Oedfaon mis Mai am 10.30 a.m. a 6.00 p.m.**

Mai 5ed – Y Parch. Glyn Tudwal Jones. Bore: Oedfa Gymun

Mai 12fed – Cyfarfodydd Pregethu o dan arweiniad y Parch. Robert Parry, Lerpwl

Mai 19eg – Mr Arwel Ellis Owen

Mai 26ain – Parch. Dafydd Andrew Jones

## BETHEL, PENARTH

Yn ddiweddar buodd Llinos Haf Jones mas i ganu yn America ar gyfer dathliadau Gŵyl Dewi yn Philadelphia, Efrog Newydd a Washington DC. Trefnwyd y daith gan Gymdeithas Gymraeg Philadelphia ynghyd â'r Urdd. Roedd Llinos yn un o 4 o gantorion a ddewiswyd i fynd ar y daith; perfformiodd y 4 mewn sawl cyngerdd ar hyd yr wythnos, o Gapeli Cymraeg Efrog Newydd a Philadelphia a'r Embassy yn Washington DC. Profiad bythgofiadwy. Mae Llinos yn ddiolchgar iawn i'r Urdd ac i Gymdeithas Gymraeg Philadelphia am y profiad.

Bu Sul, Mawrth 3ydd, mewn oedfa i ddwyn i gof ein hetifeddiaeth, dewisodd ein gweinidog fynd i'r Apocryffa (Llyfr Ecclesiasticus, Pennod 44, Adnodau 1-15) am ddarlleniad gyda'r pennawd Mawl i'n Cyndadau. Yn y myfyrdod cyfeiriwyd at un o'r negeseuon a gysylltir gyda Dewi, sef, gwnewch y pethau bychain. Gadawyd gyda ni yr her o geisio dwyn i gof yn union pa bethau bychain y buom yn eu gwneud yn ddiweddar.

Arweiniwyd ein hoedfa ar y degfed gan Sian Meinir. Gosododd y cyfan yng nghyd-destun Tymor y Grawys, y cyfnod o ddisgwyl a pharatoi. Darllenwyd Salm 130 a Marc 8, 31 – 38. Cyfeiriwyd ein sylw at eiriau yn adnod 34, yn benodol, '…rhaid iddo ymwadu ag ef ei hun…'. Sut mae dehongli 'ymwadu' oedd her Sian i ni.

Ar y 17eg cynhaliwyd Sul y Cyfundeb (eglwysi Annibynwyr De-Ddwyrain Cymru) yng Nghanolfan yr Urdd ym mae Caerdydd. Roeddem yn ymhyfrydu yn y ffaith bod y cyfan dan ofal Sian Meinir, yn enwedig gan ei bod yn gwisgo esgid feddygol drom yn dilyn cwymp. Llongyfarchion iddi. Am esiampl!

Cawsom gwmni hawddgar y Parchedig Robin Samuel ar y 24ain i arwain ein myfyrdodau ar Sul y Blodau. Roedd y darlleniad cyntaf o Efengyl Luc, Pennod 19, Adnodau 41 – 45. Tynnwyd ein sylw at y geiriau 'ffordd tangnefedd' gyda Robin yn pwysleisio'r angen i ni ddilyn Iesu yn hyn o beth, yn enwedig yn y dyddiau dyrys hyn o helbul ar draws y byd. Roedd yr ail ddarlleniad o Eseia 35, 1- 7, gyda'r pennawd Llawenydd wrth Ddychwelyd. Bu hyn yn gefndir i Robin gyfeirio at Ffynhonnau Bywyd, sef, yr Apêl sy'n cael sylw eleni gan Undeb yr Annibynwyr Cymraeg. Ar ddiwedd yr oedfa cysegrwyd cadair newydd, hardd i'w gosod ar lwyfan y capel. Rhodd, er cof, yw'r gadair gan deulu yr annwyl Ceri Jones, un a fu'n ffyddlon i Fethel dros flynyddoedd.

## EGLWYS GATHOLIG TEILO SANT

Roedd hi'n dda eleni cael cychwyn yr Wythnos Fawr gyda'r Offeren fisol ar Sul y Blodau. Daethom ynghyd yng nghefn yr eglwys i'r Tad Peter fendithio'r palmwydd a darllen hanes taith Iesu i mewn i ddinas Jerwsalem ar gefn ebol asyn. Yna gorymdeithio gan ganu emyn ar gyfer yr Offeren.

Darllenwyd y Dioddefaint yn ôl Marc gan ddau aelod o'r gynulleidfa gyda'r Tad Peter yn ynganu geiriau Iesu a'r gynulleidfa yn cymryd rhan y dorf. Mae'n brofiad ysgytwol gweiddi 'Croeshoelier ef' ac ystyried canlyniadau'r waedd honno.

Ar ddydd Mawrth yr Wythnos Fawr roedd yr Eglwys Gadeiriol yn llawn ar gyfer Offeren Fawr y Crism. Unwaith y flwyddyn yn ystod yr Wythnos Fawr bydd yr Archesgob, yr offeiriaid a'r ffyddloniaid yn dod ynghyd ar gyfer bendithio'r olew sanctaidd. Dyma'r olew fydd yn cael ei ddefnyddio ymhob plwyf wrth ddathlu'r sagrafennau yn ystod y flwyddyn i ddod. Tad Peter, fel caplan ysbyty, sydd yn cyflwyno'r olew fydd yn cael ei ddefnyddio ar gyfer Sagrafen Eneinio'r Claf. Darllenwyd darn o broffwydoliaeth Eseia yn Gymraeg gan John Fellows, aelod o gynulleidfa Teilo Sant, ac mae'r Archesgob Marc bob amser yn rhoi'r fendith yn Gymraeg ar ddiwedd yr Offeren.

Edrychwn ymlaen at rannu myfyrdod Gwener y Groglith yng nghwmni cyfeillion o Eglwysi Cymraeg Caerdydd yn Eglwys Dewi Sant.

Offeren mis Ebrill: 28 Ebrill 4.30pm yn Eglwys Teilo Sant gyda phaned i ddilyn. Croeso cynnes i bawb

Cyswllt: carys@caerdelyn.com

## EGLWYS DEWI SANT

**Gŵyl Dewi**

Roedd Sul 3 Mawrth yn drydydd Sul y Grawys a dyna oedd pwyslais y gwasanaethau am 8:00 a 6:00pm. Canolbwyntiodd y gwasanaeth 10.30 ar ddathlu Gŵyl Dewi, nawddsant Cymru a mabsant yr Eglwys hon. Y pregethwr oedd Y Parchedig Athro Thomas Watkin. Yn dilyn y gwasanaeth bu cyfle i gymdeithasu dros ginio o gawl a phwdin crymbl yn y neuadd.

**Llongyfarchiadau**

Llongyfarchiadau i Gareth Fairclough a Lisa Marie Molletin ar

eu priodas yn ddiweddar yn Hanover, Yr Almaen. Dymunwn bob bendith arnynt.

**Cwmplin yn ystod y Garawys**

Parhau wnaeth y rhain a Myfyrdod dros Zoom yn ystod y Grawys ar nosweithiau Mercher.

**Dydd Gweddi'r Byd**

Roedd cynrychiolaeth dda o EDS yn y gynulleidfa ar gyfer Dydd Gweddi'r Byd. Roedd yn wasanaeth bendithiol a theimladwy iawn wrth i ni weddïo dros a chyda Cristnogion Palesteina ar y thema 'Rwy'n erfyn arnoch i oddef eich gilydd mewn cariad' a'r weddi daer 'Arglwydd rho i ni'r gras i roi heddwch yn nwylo ein gilydd ac fel trysor gafael ynddo.'

**Banc Bwyd Caerdydd**

Yn ôl ein harfer, casglwyd nwyddau tuag at waith Banc Bwyd Caerdydd yn ystod y Grawys.

**Gofal Ein Gwinllan**

Cynhaliwyd sesiwn olaf y Gwanwyn yng nghyfres Gofal Ein Gwinllan ddydd Sadwrn 16 Mawrth dros Zoom. Bu'r Dr Rhidian Griffiths yn ystyried emyniaduron Anglicanaidd Cymraeg y 19eg ganrif a'r Dr Huw Tegid Roberts yn trafod 'Elis Wyn o Wyrfai – y dyn iawn yn y lle iawn ar yr adeg anghywir.'

**Cydymdeimlo**

Cydymdeimlwn â chysylltiadau Sarah Jones a Billy Ladd a fu farw yn ddiweddar

**Coffi a Chlonc**

Daeth criw da ynghyd i'r bore Coffi a Chlonc i fwynhau'r gwmnïaeth wresog. Cynhelir yr un nesaf ddydd Sadwrn 20 Ebrill.

**Dydd Gwener y Groglith**

Cynhaliwyd gwasanaeth Dydd Gwener y Groglith Cyngor Eglwysi Cymraeg Caerdydd yn Eglwys Dewi Sant am 2:00 pm. Y Parchedig Denzil John oedd yn pregethu.

# Merched y Wawr Bro Radur


**Pererindod Pen-rhys**

Y Fonesig Helen Lloyd Jones oedd ein gwestai ar nos Fercher 6 Mawrth. Y cyfarfod hwn oedd achlysur blynyddol siaradwyr newydd y Gymraeg. Roedd nifer dda yn bresennol, ac roedd clywed sut yr aeth Helen Lloyd Jones ati i ddatblygu prosiect Llwybr Pen-rhys yn amserol ac addas iawn wrth i ni hefyd ddathlu Dydd Gŵyl Dewi.

Mae Helen wedi dysgu Cymraeg ac yn benderfynol o ddefnyddio'r iaith a chefnogi ein diwylliant. Mae hi hefyd yn gwybod bod hanes yn gymorth i ddeall Cymru ein dydd. Felly, cawsom amlinelliad o'r daith 21 milltir o'r eglwys gadeiriol yn Llandaf at ffynnon Fair ym Mhen-rhys yn y Rhondda. (Mae'n bosib cyrraedd sawl man ar y daith mewn bws.)

Gwelsom fod Pen-rhys ar dir uchel rhwng Rhondda Fawr a Rhondda Fach. Clywsom am dŷ o'r enw Prebendal sy'n agos at yr eglwys gadeiriol yn Llandaf; Mathew's House yn Creigiau a'r Stella Maris ar ddiwedd y bererindod. Mae'r hanes yn dyddio'n ôl i gyfnod y mynachod Sistersaidd yn Llantarnam, ac mae olion maenor ac ysgubor ddegwm ym Mhen-rhys. Roedd y bererindod i Ben-rhys yn arfer bod yn bererindod boblogaidd fel pererindod Ipswich a phererindod Walsingham yn Lloegr.

Clywsom am y gwahaniaeth y mae anfon cenhades heddiw i weithio yn y gymuned ym Mhen-rhys wedi ei wneud i fywydau plant a phobl ifanc yr ardal. Mae'r gwaith yn digwydd yn eglwys Llanfair lle mae gwahoddiad i orffwyso, gweddïo neu fod yn llonydd, a chyfle i blant wneud eu gwaith cartref mewn lle diogel.




Dyna braf oedd deall bod gwefan ar gael yn rhad ac am ddim yn y ddwy iaith. A diddorol oedd gweld cynnwys y wefan honno www.penrhyspilgrimageway.wales/cym/.

Diolchodd Eirian Dafydd, ein Llywydd, am noson oedd yn llawn gwybodaeth newydd. Roedd llawer o gwestiynau, a sawl sgwrs ddifyr. Wedyn cawsom gyfle i fwynhau paned a danteithion fel pice ar y maen a bara brith.

*Gwen Emyr*

**Cyfarfod mis Mai**

Bydd cyfarfod mis Mai cangen Bro Radur ar y cyd â Gŵyl Radur. Byddwn yn croesawu Ian Gwyn Hughes, Pennaeth Cysylltiadau Cyhoeddus a Diwylliant Cymdeithas Pêl-droed Cymru. Cynhelir y cyfarfod yn Ysgoldy Eglwys Crist, Radur am 7.30pm ar 8 Mai a bydd ar agor i bawb, nid dim ond aelodau o Ferched y Wawr. Tocynnau £5.

## Tymor newydd o weithgareddau ar gyfer y gwanwyn

Mae Menter Caerdydd yn dathlu ar ôl cyrraedd y brig mewn dau gategori yng Ngwobrau Cardiff Life yn ddiweddar – 'Cyfraniad at y Gymraeg' a'r wobr am y 'Digwyddiad Gorau' ar gyfer Tafwyl. Rydym yn ddiolchgar iawn i bob un ohonoch am gefnogi ein gweithgareddau amrywiol ac i'n holl bartneriaid am eu cefnogaeth barhaus. Ymlaen â'r gwaith!




Gyda'r nosweithiau'n ymestyn a'r tywydd yn gwella, dyma'r amser delfrydol i fwynhau ychydig o awyr iach. Beth am ymuno â'r clwb garddio newydd i rannu syniadau ar gyfer plannu a thyfu? Neu dewch am dro wrth i sesiynau 'Cerdded a Chlonc' ailddechrau ar gyfer yr haf!

Dyma flas o arlwy Menter Caerdydd a Menter Iaith Bro Morgannwg dros yr wythnosau nesaf:



### Garddio

Methu'n lân â thyfu tatws? Malwod yn bwyta'r begonias? Os ydych chi'n chwilio am ysbrydoliaeth ar gyfer creu a chynnal eich gardd, ymunwch â ni bob nos Iau o 11 Ebrill. Dyma gyfle i bawb sydd â diddordeb mewn potiau a phridd ddod at ei gilydd i rannu profiadau a chyngor. Lleoliad: Festri Capel Salem, Treganna a Gerddi Cymunedol Chapter, 7:00-8:30yh. Pris: £30 am 3 sesiwn.

### Sgwrs y Mis

Yn ein sgwrs nesaf ar Zoom, bydd yr Athro M. Wynn Thomas yn ein cyflwyno i'w gyfrol newydd, *Poems from the Soul: Twelve of the Great Hymns of Wales*. Mae'r llyfr, a gyhoeddir gan Wasg Prifysgol Cymru, yn trafod deuddeg o'n hemynau mwyaf poblogaidd, o'r 18fed i'r 20fed ganrif, gan fanylu ar gerddi'r werin – gofaint, amaethwyr a phregethwyr. Dechrau'r daith yw geiriau cyfarwydd 'Dyma gariad fel y moroedd', ac wedi hynny cawn ein tywys trwy emynau grymus rhai o'n mawrion, megis Ann Griffiths a Williams Pantycelyn. Dyma gyfle i ddysgu mwy am rai o'r emynau sydd wrth wraidd ein cenedl fodern ac yng nghalonnau cymaint ohonom. Dyddiad: Nos Lun, 22 Ebrill, 7:30yh. Pris: Am ddim.

### Cerdded a Chlonc

Bydd cynllun 'Cerdded a Chlonc' yn ailddechrau ym mis Ebrill gyda chyfarfodydd misol drwy gydol yr haf. Eleni, bydd y diwrnod a'r amser yn amrywio o fis i fis a chewch hyd i'r manylion llawn ar ein gwefan. Mae croeso i siaradwyr Cymraeg o bob lefel ymuno â ni i sgwrsio a chrwydro'n hamddenol. Parc Bute fydd ein lleoliad cyntaf – prynhawn Llun, 15 Ebrill rhwng 2:00 a 3:30yp. Pris: Am ddim.

### Pilates

Ydych chi'n chwilio am ffordd o gryfhau'r cyhyrau ac ystwytho'r corff? Bydd tymor newydd o sesiynau Pilates yn dechrau nos Fawrth, 9 Ebrill rhwng 6:00 a 7:00yh yn Festri Salem, Treganna. Mae croeso i aelodau newydd! Pris: £55 am 10 sesiwn.

### Y Gerddorfa Ukulele

Beth am ymuno â Mei Gwynedd a'r Gerddorfa Ukulele bob nos Fercher yn Chapter? Bydd tymor newydd yn dechrau nos Fercher, 24 Ebrill (7:00-9:00yh) ac mae'r sesiynau'n addas i chwaraewyr o bob lefel gan gynnwys dechreuwyr. Pris: £80 am 10 sesiwn.

### Mewn Tiwn

Y pianydd a'r arweinydd côr Ben Pinnow fydd yn ymuno â ni yng Nghanolfan Beulah, Rhiwbeina fore Llun, 29 Ebrill ar gyfer ein cyngerdd gymunedol ddiweddaraf. Bydd y gerddoriaeth yn dechrau am 11:30 ond mae croeso i chi ddod ychydig yn gynt i fwynhau paned a sgwrs o flaen llaw. Pris: Am ddim.

### Gŵyl Fach y Fro – datgelu'r bandiau!

Bydd llu o gerddorion a bandiau gwych yn perfformio yng Ngŵyl Fach y Fro wrth i'r ŵyl ddychwelyd i Ynys y Barri ar ddydd Sadwrn, 18 Mai. Cadwch y dyddiad a dewch draw i glywed Fleur de Lys, Gwcci, Mattoidz, Lowri Evans, Sage Todz, Wigam, Brigyn, Bethan Nia a mwy!

Am fwy o wybodaeth am ein gweithgareddau ar gyfer oedolion, ewch i: https://mentercaerdydd.cymru/cy/oedolion

### Gweithgareddau i blant a theuluoedd

Bydd sesiynau Amser Stori a'r gweithgareddau i blant yn ail-ddechrau ar ôl gwyliau'r Pasg gyda'r manylion llawn i'w gweld ar ein gwefan. Yn ystod tymor yr haf byddwn yn cynnal teithiau natur i blant oed cynradd mewn partneriaeth ag Ymddiriedolaeth Natur De a Gorllewin Cymru gyda'r dyddiadau i'w cyhoeddi'n fuan!

Am fwy o wybodaeth am ein gweithgareddau ar gyfer plant a phobl ifainc, ewch i:

https://mentercaerdydd.cymru/cy/plant-a-phobl-ifanc
Gwefan: mentercaerdydd.cymru / menterbromorgannwg.org
Facebook: @m.caerdydd / @MIBroMorgannwg
https://www.instagram.com/mentercaerdydd/ https://www.instagram.com/menterbromorgannwg/
E-bost / Ffôn: post@mentercaerdydd.cymru / 029 2068 9888

# Siaradwyr Cymraeg Newydd



## *Sut mae'r tywydd?*

**Gwilym Dafydd**

Wel, dim ond un ateb sydd i'r cwestiwn oesol hwn ers wythnosau lawer a sawl mis. Tybed ai dyma'r gaeaf gwlypaf ers dyddiau Arch Noa! Mae hi'n bwrw glaw neu yn glawio. Mae hi'n ddiflas. Mae pawb bron wedi cael mwy na digon – dim ond hwyiaid ac elyrch sy'n edrych yn hapus! Mae'n debyg bydd rhai ohonoch yn cofio dysgu am y tywydd â chymorth Dosbarth Nos neu gwrs Mynediad – sawl blwyddyn yn ôl yn hanes nifer ohonoch erbyn hyn.

Ar ôl i chi ddysgu rhai cyfarchion a dysgu cyfrif o 1 – 10 yna roedd gwers am y tywydd. Pwy sy'n cofio tiwtor yn dangos cardiau fflach i ddisgrifio tua deg math gwahanol o dywydd?

Dyna pryd sylweddoloch chi am fodolaeth y Treiglad Meddal. Mae hi'n sych, mae hi'n oer, mae hi'n glawio – edrychoch chi erioed mewn geiriadur am eiriau fel **g**ynnes, **w**yntog, **b**oeth ac ati. Dydyn nhw ddim yno wrth gwrs diolch i'r treigladau! Ond ceir un eithriad. Weithiau ond nid y dyddiau hyn, dywedwn ei bod hi'n braf. Nid, mae hi'n **f**raf. Fel arfer mae ansoddair sy'n dechrau gyda 'b' yn newid i 'f' – ond nid gyda braf!

**Tom Trydanwr**

Weithiau dwi'n derbyn ymholiadau, trwy e-bost fel arfer, am Glonc Yr Awr Hapus, boreau Llun, 10.45 yn yr Hollybush, Coryton neu fel digwyddodd bore yma, (bore Iau, 28 Mawrth) am Glonc y Castell – yn y Caffi rhwng un a dau o'r gloch.

Tom oedd yn holi. Roedd Phil, Emyr a Cathy eisoes wedi cyrraedd pan welais ddyn fel petai yn chwilio amdanom – wele Tom a'i hanes diddorol. Daw o Bontypŵl yn wreiddiol ond mae bellach yn gweithio fel trydanwr ac yn byw yn Yr Almaen ac yn siarad pump iaith.

Pan ddaw nôl i Gymru weithiau mae'n manteisio ar bob cyfle i sgwrsio yn Gymraeg yng Nghaerdydd. Mae'n adnabod Heulyn a Rachel o'r Fenter, wedi gwirfoddoli yn Tafwyl. Mae'n adnabod Deiniol – ers i Amser Cwestiwn ddod i Gaerdydd yn ddiweddar, mae Deiniol Carter hyd yn oed yn enwocach wedi cael selffi gyda neb llai na Fiona Bruce ar Trydar neu X erbyn hyn!



Dwi wedi gwahodd Tom i ysgrifennu paragraff ar gyfer rhifyn mis Mai. Mae croeso i bawb ohonoch i ysgrifennu paragraff – hen bregeth yma!

**Llunio limrig yn Stow-on-the-Wold**

Yn ddiweddar, 21-26 Mawrth, cawson ni ychydig wyliau ac aros mewn Travelodge cyfleus iawn i ymweld â'r Cotswolds bob dydd heblaw dydd Sadwrn pan ddefnyddion ni'r Parcio a Reidio a mewn i grwydro yn ninas Rhydychen. Dyn ni wedi aros yn Cherwell Valley ger M40 sawl gwaith o'r blaen a wastad yn cael amser da yn yr ardal.



*Tai nodweddiadol o'r Cotswolds*

Ar y ffordd i Stow ar y bore Gwener, roedd modd i ni wrando ar Fore Cothi ar Radio Cymru er yn colli tipyn ohono ond digon clir i glywed Shân yn cyflwyno her y limrig a'r dasg o gwblhau'r llinell gyntaf sef 'Mae'n ddiwrnod i glirio a thwtio…' Roedd Cymru wedi cael buddugoliaeth yn erbyn y Ffindir y noson gynt. Ond wrth yfed Americano derbyniol ond drud yn Huffkins dyma Eirian yn cwblhau'r limrig gyda'r canlynol:

> Mae'n ddiwrnod i glirio a thwtio,
> i olchi, i sgleinio a sgwrio;
> ond pa ots os yw'r tŷ
> o dan haen o lwch du –
> mae Cymru yn ennill a sgorio.

Efallai i chi glywed Shân yn darllen hwn ar ei rhaglen ar y bore Llun canlynol.

Afraid dweud y base angen llinell wahanol wedi'r gêm ar y nos Fawrth yn erbyn Gwlad Pŵyl. Dim gôls, dim ennill a dim cyfle i gyrraedd Ewros yn Yr Almaen mis Mehefin 2024 tan 2028! Dyna beth oedd siom i gefnogwyr brwdfrydig a ffyddlon Y Wal Goch.

# Eisteddfod Rhanbarth Cynradd Caerdydd a'r Fro

Cynhaliwyd Eisteddfod Rhanbarth Cynradd Caerdydd a'r Fro ddydd Sadwrn y 9fed of Fawrth yn Ysgol Gyfun Gymraeg Glantaf. Ar ôl pythefnos o gystadlu yn y Cylchoedd (Canol, Dwyrain, Gorllewin a'r Fro) fe ddaeth y rhai buddugol at ei gilydd i gipio'r wobr gyntaf ac i gynrychioli'r rhanbarth ym Maldwyn. Dr Huw Rees, Iona Jones, Gareth Elis, Arwel Davies, Elin Maher a Ruth Roberts fu yn brysur yn beirniadu gydag Angharad James yn cyfeilio a Nia Evans ar y delyn.

Dechreuwyd y cystadlu am wyth y bore gyda'r Cerdd Dantwyr, gwledd o gystadlu, yr Ŵyl Cerdd Dant yn amlwg wedi cael dylanwad cryf ar blant a phobl ifanc Caerdydd a'r Fro. Fe ddaeth y cannoedd trwy gydol y bore wrth i'r cystadlu unigol barhau ac erbyn amser cinio y bwrlwm yn cynyddu gyda'r cystadlaethau torfol. Fe ddaeth y cyfan i ben gyda'r corau yn ein swyno yn canu Cydiwn Ddwylo gan J. Eirian Jones. Diwrnod prysur ond un llawn talent a brwdfrydedd gan bawb.

Ar ôl fy mlwyddyn gyntaf fel Swyddog Cymunedol Caerdydd a'r Fro a'r Eisteddfodau bellach wedi gorffen, dyma amser i longyfarch a diolch. Hoffwn estyn diolch enfawr i'r holl gystadleuwyr, athrawon, hyfforddwyr ac ysgolion, gwirfoddolwyr a staff yr Urdd am eu brwdfrydedd a'u cefnogaeth arbennig dros yr



wythnosau diwethaf. Croesawyd cannoedd i gystadlu ac i fwynhau perfformiadau o ganu a llefaru i berfformiadau offerynnol a dawns, lle bu bron i 2000 o blant a phobl ifanc yn cystadlu yn Eisteddfodau Cylch a Rhanbarth Caerdydd a'r Fro.

Pob lwc i'r enillwyr yn Eisteddfod yr Urdd ym mis Mai!

*Elen Evans*

# Ysgol Pencae yn Bencampwyr First Lego League ardal Caerdydd

Ar ddiwedd Mawrth cynhaliwyd rownd ranbarthol y gystadleuaeth fyd-eang flynyddol First Lego League i ddisgyblion ysgol yn yr Atriwm, Prifysgol De Cymru. Mae'r gystadleuaeth yn annog y disgyblion i hogi eu sgiliau wrth arloesi trwy gynllunio prosiect a ddaw â budd i'w cymuned ac adeiladu a chodio robot i gyflawni tasgau penodol. Gwobrwyir hefyd amrywiaeth o sgiliau craidd.

Eleni daeth pedwar tîm o dair ysgol i'r gystadleuaeth – Glan Ceubal (2), Gwent Is-coed a Phencae. Cyflwynwyd prosiectau arloesi ar gyfer rhoi mynediad i fyd natur trwy realiti rhithwir, creu app ar gyfer arlunwyr, a gosod i fyny gynllun cynaliadwy i droi dyfeisiadau electronig sydd wedi torri yn arian. Bu crŷn dipyn o waith ymchwil a mireinio syniadau tu cefn i'r gwaith a gyflwynwyd.

Mae'n siwr mae'r dasg fwyaf heriol oedd adeiladu robot a'i godio fel y gallai gyflawni nifer o ofynion arbenigol. Roedd pob un o'r rhain yn ymwneud â rhoi profiad byw a chofiadwy i gynulleidfaoedd ym maes y celfyddydau. Golygai hyn dreialu a gwella sawl gwaith nid yn unig ddyluniad y robot ond hefyd y côd ar gyfer pob un o'r tasgau.



Bydd y disgyblion wedi elwa llawer o'r profiad yma a llwyddodd pob un o'r timau i ennill gwobr am fod y gorau yn un o'r adrannau a feirniadwyd: Gwent Is-coed – y prosiect arloesi, Pencae – codio robot, Glan Ceubal 1 – dyfalbarhad yn wyneb anawsterau a Glan Ceubal 2 – sgiliau craidd. Llongyfarchiadau mawr i bob un ohonynt.

O gyfansymio marciau'r pedair adran, cafwyd mai Pencae oedd y pencampwyr. Mae cyfle ganddynt yn awr i fynd ymlaen i'r rownd Brydeinig yn Harrogate ym mis Mehefin.

Dioch yn fawr i'r timau a'r athrawon a fu'n gefn iddynt wrth gystadlu, a hefyd i Cerian Angharad (https://gweld-gwyddoniaeth.co.uk) am drefnu'r gystadleuaeth eto eleni.

# Merched y Wawr Caerdydd

Yng nghyfarfod mis Mawrth, cawsom gyflwyniad i'r oriel gelf gyfoes, TEN. a sefydlwyd gan Cat Gardiner. Agorodd hon yn Windsor Place yn 2010. Yna, am gyfnod, bu Cat yn arddangos yn ei chartref ei hun – byddai'n gosod darnau o gelf ar hyd y tŷ ac yn gwahodd cleientiaid i grwydro o gwmpas ei chartref. Ond ers 2021 mae ganddi oriel newydd sbon mewn hen goetsiws wedi'i addasu y tu ôl i'w chartref yn Tyn-y-coed Place, Y Rhath – mae newydd ddathlu pymthengmlwyddiant yr Oriel. Mae'n ddiddorol nodi bod 8 oriel gelf ym milltir sgwâr y Rhath – mae Cat wedi creu map ohonynt.

Cymraes o Gaerdydd yw Cat a raddiodd yn y Gymraeg a Chelf yn Aberystwyth, a ddilynwyd gan gwrs MA arloesol mewn Curadu yn Llundain. Sylweddolodd mai dyma oedd ei bryd ac aeth ati i ddatblygu perthynas glos gydag artistiaid sy'n byw neu'n gweithio yng Nghymru er mwyn arddangos eu gwaith.



Ni yw'r artistiaid hyn yn cydymffurfio â'r cysyniad traddodiadol o gelf Gymreig. Mae'n cynrychioli ac yn hyrwyddo gwaith 20 o wneuthurwyr sy'n estyn y ffiniau yn eu maes celf. Mae gwaith Iwan Bala, Jon Pountney, Carwyn Evans, Seren Morgan Jones, Susan Williams, ymhlith eraill, yn archwilio hunaniaeth Gymreig gyfoes a chelf ôl-ddiwydiannol drwy amrywiol gyfryngau.

Yn aml, mae'r artistiaid yn adnabyddus yn fyd-eang yn eu maes arbenigol ond eto'n gwbl anenwog yng Nghymru. Mae'r crochennydd o Gaerdydd, Laura Ford, yn Llywydd Cymdeithas Frenhinol Y Cerflunwyr, ac mae ei gwaith mewn casgliadau ledled y byd. Mae James Rielly, yr arlunydd Cymreig sy'n byw yn Ffrainc, Jaejun Lee, y crochenydd o Gorea, Nerea Martinez de Lecea, y ffotograffydd arobryn, yn enghreifftiau eraill o artistiaid cydnabyddedig a gynrychiolir gan Cat. Mae croeso i bawb alw heibio i'r oriel i fwynhau gwaith y rhain – does dim rhaid prynu!

Yn ogystal â'r arddangsofeydd, mae Cat yn trefnu gweithgareddau allgyrsiol fel y prosiect BANER, creu Ffolios Print o waith Jon Pontney, a chydweithio gyda Sophie Southgate ar gomisiwn i gwmni Saint Laurent ym Mharis a Los Angeles.

Roedd yn bleser cael gwrando ar wraig ifanc sydd â ffocws cwbl ddiwyro ar yr hyn mae eisiau ei gyflawni. Mae'n gweithio'n ddiflino i arddangos a meithrin celfyddyd Gymreig gyfoes a llwyddodd i gyfleu ei brwdfrydedd i ni mewn cyflwyniad tra diddorol.

*Joy Davies*

# Cymdeithas Gymraeg Rhiwbeina

Ar nos Lun Mawrth 16 croesawodd ein Cadeirydd Shirley Williams yr aelodau i Ginio Dathlu Gŵyl Dewi yng Nghlwb Golff Yr Eglwysnewydd. Dyma'r Cinio cyntaf i ni ddod at ein gilydd ers cyn y cyfnod clo, ac roedd pawb yn falch o hynny. Wedi i bawb fwynhau ein pryd blasus croesawyd yn ffurfiol Marged Jones a Steffan Jones.

Wrth gyflwyno, dywedodd ein Cadeirydd bod y ddau wedi dderbyn addysg gerddorol eang ac roeddem yn ffodus iawn bod y ddau wedi llwyddo i ddod i roi adloniant i ni heno ac i ymuno yn y dathlu. Y ddau yn frawd a chwaer ac yn blant y ddinas ac yn gerddorion o fri.

Yn ystod y datganiad cyflwynodd Steffan amrywiaeth o ganeuon clasurol Ewrop, gyda Marged yn cyfeilio. Dewisiodd ganeuon gan Bach, Schubert a Mendelssohn. Yna yn yr ail hanner, caneuon Cymreig a thrwy hynny yn arddangos doniau cyfansoddwyr Cymreig a oedd yn sefyll ochr yn ochr â goreuon Ewrop. Mwynhawyd yn arbennig 'Gwynfyd' Meirion Williams ac 'Ar Lan y Môr' - Trefniant Jeff Howard, Lieder 'Montnacht' Schumann - Trefniant W S Gwyn Williams. Ar ddiwedd y noson diolchwyd iddynt am roi eu hamser yng nghanol eu prysurdeb, gan roi adloniant o safon i ni wrth ddathlu dydd ein Nawddsant.

**Bore o Goffi a Sgwrs**

Ar fore Llun, Mawrth 18, daeth nifer dda i'r Deri, Rhiwbeina i fwynhau paned a sgwrs. Roedd y sgwrsio'n flasus a difyr, ac atgoffwyd pawb am ein digwyddiad nesaf sef, Noson Cwis a Chyri yn y 'Rec' Rhiwbeina ar Nos Fawrth, Ebrill 16 am 7.00 . Mae croeso i bawb ond bydd angen cael tocynnau ymlaen llaw oddi wrth unrhyw un o aelodau'r Pwyllgor.



# Bwytai Merch y Ddinas



## Mesen

**Lowri Haf Cooke**

I nifer o ddinasyddion dŵad, ardaloedd mwyaf Cymraeg y ddinas yw maestrefi gorllewinol Pontcanna a Threganna. Ond mae'r rheiny a fagwyd yn ninas Caerdydd yn gwbod fod gan y Gymraeg wreiddiau dwfn yn Rhiwbeina. Mae hanes yr ardal yn hynod ddiddorol; tybed a glywsoch chi erioed am Iestyn ap Gwrgant (1014 - 1093)? Ef oedd y Cymro cynhenid olaf i fod yn dywysog ar Forgannwg; cafodd ei lofruddio yn Nant Rhydwaedlyd gan y Normaniad Robert Fitzhammon - nid nepell o dafarn leol y Butchers erbyn hyn. Mae ei arfbais – baner goch a thri sieffrwn gwyn - yn dal i ymddangos ar faner Caerdydd, ar y cyd â draig goch a wompyn o genhinen!




Roedd sawl fferm yn perthyn i'r ardal, gan gynnwys Pant-mawr, Tyn-y-cae, Tyn-y-coed a'r Deri, a chafodd yr olaf ei henwi ar ôl y dderwen sy'n dal i sefyll ger y Deri Stores a thafarn y Deri. Ond ar ddechrau'r ugeinfed ganrif, datblygwyd y faestref ar ffurf pentref llain las, a hynny ar dir fferm 'Rhiwbeina' dan oruchwyliaeth y *Rhiwbina Garden Village Society*. Dechreuwyd yn 1913 gyda chasgliad o dai a gynlluniwyd gan T. Alwyn Lloyd – ar Lôn Isa, Lôn y Dail ac Y Groes. Mae'r rhan fwyaf o strydoedd yr ardal ag iddynt enwau Cymraeg, oherwydd fe'u henwyd gan y bardd W J Gruffydd o Fethel ger Caernarfon, a fu'n byw yn yr ardal tra'n tra bu'n Athro yn Adran Astudiaethau Celtaidd y Brifysgol.

Dros y blynyddoedd, bu Rhiwbeina yn gartref i bob math o Gymry Cymraeg creadigol, o'r actores Rachel Thomas, y cerddor Endaf Emlyn a'r awduron Kate Roberts, Ioan Kidd a Llwyd Owen. Ac yn wir, ym mharti lansio nofel ddditectif newydd Llwyd Owen, sef *Helfa*, ym mar y Rhiwbina Tap ym mis Ionawr y clywais ganmol di-bendraw i'r bwyty gyferbyn, sef **Mesen** ar Heol y Deri.

Ro'n i mor falch i ddarganfod nad dyfais marchnata arwynebol oedd yr enw - yn wahanol i fwyty Silures ar Heol Wellfield, sy'n benthyg enw llwyth Celtaidd gwreiddiol De-Ddwyrain Cymru, ond heb rannu dim byd amdanynt. Grrrr… Yn wir, ces groeso anhygoel o gynnes gan y perchennog Rhys Williams, a eglurodd iddo fedyddio'r bwyty – sy'n gweini bwyd 'wedi'i baratoi dros dân golosg coed' – allan o barch i'w leoliad ar Heol y Deri. Cafodd Rhys ei eni a'i fagu yn Rhiwbeina, cyn symud yn hwyrach i Radyr, ac fe'i addysgwyd yn ysgol gynradd y Wern ac Ysgol Gyfun Gymraeg Glantaf. Efallai y byddwch yn gyfarwydd yn wir â siop hynod chwaethus ei fam, 'Beti Biggs' ym Mhontcanna! Ond dechreuodd Rhys ei yrfa ym maes ariannol Llundain, cyn dychwelyd adre i Gaerdydd a gosod ei fryd ar agor bwyty. Fe agorodd Mesen ym mis Mehefin y llynedd, a dim ond canmol – wir i chi - a glywais ers hynny.

Ro'n i'n falch i fod wedi oedi cyn ymweld â'r bwyty, oherwydd mae gormod o 'heip' agoriadol yn gallu bod yn hynod gamarweiniol, yn arbennig mewn cyfnod mor heriol i fwytai'r brifddinas. Felly wyth mis i fewn i'r fenter ar ddechrau mis Mawrth, beth a ffeindiais - er cryn bleser - ond bar a bwyty gorlawn o bobol yn joio gwledd a hanner ar nos Sadwrn. Pleser hefyd oedd darganfod bod Heol y Deri yn 'buzzin' ar benwythnos; mae'r tŷ cyri Juboraj yn hen ffefryn ers cantoedd, ond diolch i'r Rhiwbina Tap a hefyd bar a siop win Wine Republic (a deli Snails rownd y gornel) mae'r pentre dinesig bellach yn gryn atyniad cymdeithasol.

Beth am y bwyd te? Wel, y prif gyngor alla i ei rannu yw, archebwch fwrdd o flaen llaw i sbario cael eich siomi. Ro'n i'n andros o lwcus i gerdded mewn ar nos Sadwrn a ffeindio lle i ddwy ohonom wrth y bar, o flaen y gegin tân-agored. Os ga i egluro; fel arfer byddwn i'n bendant wedi bwcio, ond roedd fy ffrind ar drugaredd amserlen amwys yr Eisteddfod Sir! Rhaid cyfaddef i'm calon suddo'n wreiddiol pan glywais i mai bwydlen 'platiau bychain' oedd dan sylw… ond fe wnaeth Rhys egluro bod y meintiau'n rhai hael, ac y gallen ni'n dwy rannu 5 neu 6 phlatiad rhyngom. Doedd e ddim yn anghywir! Ac am fwydlen, … gallen i fod wedi bwyta'r detholiad cyfan o seigiau llawn cynhwysion lleol a gaeafol, yn amrywio o gig Rosedew Farm o Lanilltud Fawr a llysiau o'r ardd gefn, a chwmni W.R. Bishop o Bontyclun. Y cogydd Jake Holcombe o Borthcawl sy'n arwain – gynt o'r Potted Pig, Reaper Cardiff a Bacareto - ond mae ei hyfforddiant mewn bwyty dwy seren Michelin yn y Swistir yn egluro ei allu a'i hyder wrth i'r fwydlen newid yn wythnosol, gan weini'r gorau o gynhwysion pob tymor.

Mae seigiau 'tân agored' yn ffasiynol ers cryn amser; dyna sydd i egluro poblogrwydd bwytai Michelin fel Ynyshir, Eglwysfach a Brat a Mountain (bwytai Tomos Parry o Sir Fôn) yn Llundain, Parallel

ac Asador 44 yng nghanol y ddinas, ac SY23, tan iddo gau y llynedd yn Aberystwyth. Mae gen i ffrind sy'n ffeindio'r 'blas siarcol ar bopeth' yn ormod, ond rhaid i mi ddweud nad oedd yn flas gormesol ym Mesen.

Dechreusom gyda phlatiad o fara surdoes Riverside a menyn 'crofen' neu 'crackling' cig moch (OMB – bendigedig), yna'r Pâté de Campagne oedd yn damaid hyfryd i aros pryd. Yna daeth platiad ffres o lysiau gwyrdd tymhorol (oedd mor ardderchog, nes i'm gwastraffu yr un bysen!), a'r tacos gwddf cig oen, oedd yn gwbl ysgubol. Roedd dyfnder y blasau'n rhyfeddol. Yn goron ar y cyfan, bol porc a gyflwynwyd ar sgiwer sylweddol a fyddai wedi gwneud swper olaf campus i'r hen Iestyn ap Gwrgant, ar y cyd â chaws Buratta, cennin a mêl cloron.



Er yn gyfforddus o lawn roedd y rhestr bwdinau yn ormod o demtasiwn, felly fe rannon ni'r pwdin bara menyn gyda hufen iâ caws Perl Wen – ac am agoriad llygad! Sôn am ddenu'r chwilfrydedd… ac yn wir, roedd y blas yn wefreiddiol, yn gyfoethog o ludiog ac yn ffres ar y tafod. Roedd mor hyfryd cael sgwrs Gymraeg gyda Rhys toc cyn gadael. Mae Mesen *wir* yn gweithio, mae'n atyniad a hanner. Hoffwn yn bendant ddychwelyd am ddathliad go hyfryd – ac fel arfer bydden i'n dewis bwyty canolog ar gyfer achlysur arbennig.

Wrth adael ymhyfrydais yn safon y talent Cymraeg sydd i'w brofi ar hyd a lled y ddinas. Ychwanegwch yr enw Rhys Williams at y rhestr anrhydeddus o Gymry sy'n cynnal y fflam yn Rhiwbeina.

Mesen, Heol y Deri, Rhwbeina CF14 6HF; www.mesenrestaurant.com

*Gwledd*, *Bwytai Cymru* a *Canllaw Bach Caerdydd* gan Lowri Haf Cooke – ar werth ar wefan Gwales, ac yn eich siop Gymraeg lleol.

## Eisteddfod Ysgol Farddol Caerdydd

Mae'r Ysgol Farddol yma yng Nghaerdydd yn mynd o nerth i nerth. Dros y gaeaf bu criw o ddarpar-gynhangeddwyr brwd dan arweiniad Gruffudd Eifion Owen yn dysgu prif elfennau'r gwahanol gynghaneddion cyn symud ymlaen i lunio englynion. Roedd hwn yn ddosbarth hybrid gyda rhai yn cyfarfod mewn person yng nghanolfan *Chapter* ac eraill yn ymuno dros y we. Roedd y trefniant yma wedi galluogi un o Batagonia ac un o Ohio i ddysgu am y gynghanedd. Pori'n ddyfnach yn llu rheolau'r gynghanedd a nifer o'r mesurau caeth a fu y rhai mwy profiadol dan arweiniad Aron Pritchard, beirniad Pobol y Rhigwm.



Cynhaliwyd Eisteddfod ar ddiwedd y tymor gyda'r prifardd Hywel Griffiths yn beirniadu cynghaneddion, cwpledi, englynion gwahanol a cherddi caeth. Cynigwyd cadair am gerdd gaeth ar unrhyw fesur ar y testun 'Tonnau'. O'r naw cerdd a gyflwynwyd, cerdd arbennig gan Dilwyn Jones yn cyfeirio at ddinistr newid hinsawdd oedd yr un buddugol, ac fe gafodd ganmoliaeth uchel a chwbl haeddiannol gan y beirniad. Llongyfarchiadau mawr iddo ef.

Diolch yn fawr i'r ddau diwtor am nosweithiau hwyliog dros y gaeaf wrth drafod a gwerthfawrogi'r gynghanedd, sy'n un o drysorau'r iaith Gymraeg. Diolch i Fenter Caerdydd hefyd am drefnu'r sesiynau.

### Tonnau

Cofiaf yr hydref cyfan
a'r lloer yn goreuro'r llan,
gwelais dan lafn y golau
wyrthiau rhin rhyferthwy'r hau
a greddf hil yn epilio
haenau grawn ar wely gro.
Ei dylwyth megis dolen
mewn defod a hanfod hen
yn don ar don fel cwymp dail
yn gawod dan y gwiail.

Heno yn fy mhenwynni
oer yw'r lloer ar war y lli,
hwyrach bum ar ddisberod
yn fy myw, rhwng byw a bod;
tra medraf fe oedaf i
yn y glaw, mae hi'n gloywi'n
y cwm, a'r nant, siawns y caf
weled yr eog olaf.

Dilwyn Jones

# Gwylio'r Geiniog



## Huw Aled Accountants

Yn dilyn Y Gyllideb gan y Canghellor, 6 Mawrth 2024 dyma'r prif faterion i'w nodi:

**1. Unigolion**

- Ar gyfer ***gweithwyr***, bydd cyfraddau Yswiriant Gwladol Dosbarth 1 yn gostwng o 10% i 8% o 6 Ebrill 2024, gyda'r cyfraddau Dosbarth 4 ar gyfer yr ***hunangyflogedig*** yn gostwng o 8% i 6%. Bydd unigolion yn arbed tua £450 o dreth y flwyddyn.
- Ar gyfer y rhieni sy'n derbyn ***budd-dal plant:***

  Trothwy ar gyfer dechrau ad-daliadau yn codi o £50,000 i £60,000 o Ebrill 2024.

  Trothwy ar gyfer ad-daliadau llawn yn codi o £60,000 i £80,000.
- ***Treth tanwydd*** wedi'i rhewi eto, gyda'r ***dreth ar alcohol*** hefyd wedi'i rhewi tan Chwefror 2025. Codiadau pellach yn y ***dreth ar dybaco*** a threth newydd i ddod i rym yn 2026 ar 'vapes'.
- Dim cynnydd yn y ***lwfansau di-dreth*** ar gyfer treth incwm a threth ar eiddo, ond mae'r trothwy lle mae busnesau yn gorfod cofrestru am TAW (Treth ar Werth) yn codi o £85,000 o incwm y flwyddyn i £90,000.

**2. Tai**

- Diddymu ***rheolau treth ar dai gosod*** ('*Furnished Holiday Lets*') o 6 Ebrill 2025. Bydd y tai yma yn cael eu trin yn union yr un fath â thai sy'n cael eu rhentu i denantiaid. Mae hyn yn debygol o gael effaith sylweddol ar lefelau elw nifer o dai gosod ac ar y rhyddhad treth sydd ar gael pan gaiff y tai yma eu gwerthu.

  Cysylltwch â ni am amcangyfrif treth ar eiddo, os ydych yn ystyried gwerthu'r math yma o dai.
- Gostyngiad yn y gyfradd uwch ar dreth ar eiddo o werthu tai o 28% i 24% o 6 Ebrill 2024 (bydd y gyfradd is yn aros ar 18%).

**3. Buddsoddiadau (manylion llawn i'w cadarnhau)**

- ISA Prydeinig newydd i gael ei lansio er mwyn galluogi buddsoddiad "mewn asedau sy'n canolbwyntio ar y Deyrnas Unedig", gyda lwfans blynyddol o £5,000 ar gael, ar ben y lwfans ISA presennol o £20,000.
- Bond Cynilo Prydeinig am gael ei lansio gan NS&I a fydd yn cynnig cyfradd llog gystadleuol am gyfnod o dair blynedd.

Byddwn yn parhau i roi'r wybodaeth ddiweddaraf ichi am newidiadau sylweddol i drethi a chyhoeddiadau ariannol y Llywodraeth.

*Am fwy o fanylion cysylltwch â ni drwy:*
*Huwaledaccountants.com neu 029 20694524*

## Gwasanaeth Dydd Gweddi'r Byd 2024


Cynhaliwyd gwasanaeth Dydd Gweddi'r Byd Cylch Caerdydd ar 1 Mawrth yn yr Eglwys Fethodistaidd Saesneg yn Yr Eglwys Newydd. Paratowyd y gwasanaeth gan ferched Cristnogol Palesteina eleni. Cafwyd storïau oedd yn rhoi cipolwg ar brofiad tair gwraig o'r wlad, pob un o genhedlaeth wahanol, sy'n tystio i rym goddef ein gilydd mewn cariad. Caiff y gwasanaeth ei baratoi fisoedd lawer ymlaen llaw ac oherwydd y sefyllfa ym Mhalasteina ar hyn o bryd fe offrymwyd gweddi arbennig yn ystyried hyn o fewn ein gwasanaeth.


Cymerwyd rhan gan ferched Eglwys Dewi Sant, Salem, Treganna a'r Tabernacl yn Yr Ais. Cafwyd croeso cynnes gan aelodau Ebeneser a fu'n gyfrifol am drefnu arddangosfa hynod o ddeniadol o goed olewydd, olifau, olew olewydd a ffrwythau sitraidd – sef symbolau o Balesteina. Derbyniodd pawb lyfrnod gyda llun o gangen olewydd arno a'r adnod 'Rwy'n erfyn arnoch i oddef eich gilydd mewn cariad' ar y cefn. Mwynhawyd y baned a'r deisen ar ôl y gwasanaeth a baratowyd gan aelodau Ebeneser.



*Y merched a gymerodd ran yn yr oedfa*

## Rhif: 241




**Ar Draws**

1. 'Rho dy hoff gymdeithas i mi
   Tra fwyf ----- ----- -----' (IJ) (2,5,3)

7. Y rhaeadr yn swnio fel petai'n cael siglad (1,4)
8. Adfail caer yn y gogledd garw (7)
10. Antur Iolo bron troi allan fel y disgwylir (8)
11. Yn swnio'n ludiog ond cyflym (4)
13. Taro yn rhan o'r grym o sodro rhywbeth (6)
15. Ffwdan, telyn wedi torri yn dilyn sain anadlol (6)
17. Mae un y llew yn felyn (4)
18. Mae seld y gof yn gadarn (8)
21. Mae'r llongwr yn dal dur di-ddiwedd i'r gyrrwr car (7)
22. Gwledd hawdd i'w weini efallai (5)
23. Siawns astrus bron i gael hwylustod (10)

**I Lawr**

1. Yng nghanol dysgu Tomos yn gyflym (5)
2. Mae'r crewr yn cyrraedd â'r gallu yn ei ddwylo (8)
3. Arwydd o golled (3,3)
4. Mae Gloria yn dal y cerbyd (4)
5. Gwelwn ôl y dysg yma (7)
6. 'A'i throed heb bwyth o'r ede
   ----- ----- ----- onid e?' (RW) (5,2,3)
9. 'Fel ewyn ton a dyr ar draethell unig
   Fel cân y gwynt lle nad oes ----- ----- -----' (WW) (5,1,4)
12. Lle'n agos i'r ffrwd (3-1-4)
14. Arswyd y bwlch erchyll (7)
16. Deuparth gwaith, ei ----- (6)
19. Gwasg yn yr ystafell (5)
20. Storio glo ar yn ail yn y cert (4)

**Enillydd Croesair Rhif 239**

**Gwenda Hopkins, Llanisien**

**Atebion Croesair Rhif 238**

**Ar Draws:**
Yn y cysgodion 7. Arnom 8. Dduw ni 9. Ras
10. Colomendy 11. Iyrchod 12. Camera 15. Dilysiant
17. Chwa 18. Edliw 19. Astell 21. Yn Ystrad Fflur

**I Lawr:** 1. Y feirniadaeth 2. Ynn 3. Gamblo
4. Diddymiant 5. Olwen 6. Llaw y gaeaf oer 7. Amser
10. Croesawus 13. Erchyll 14. Paladr 16. Lolyn 20. Tad

Danfonwch eich atebion at Rhian Williams
erbyn 5 Mai 2024
22 Heol Cae Rhys, Rhiwbeina,
Caerdydd, CF14 6AN
Gwobr: Tocyn llyfr £10

# Cylch Cinio Cymraeg Caerdydd

Yr Athro Medwin Hughes, Cadeirydd Llais, oedd gwestai Cylch Cinio Caerdydd nos Lun gyntaf mis Mawrth. Siaradodd yn ddifyr iawn am yr her o sefydlu corff cenedlaethol newydd i gefnogi anghenion defnyddwyr y Gwasanaeth Iechyd a Gofal. Bydd strategaeth Llais yn cael ei chyhoeddi wedi'r Pasg gyda 200 o swyddogion cymorth wedi eul lleoli mewn saith Canolfan ledled Cymru.

Gwestai mis Ebrill fydd Esgob Llandaf.



***Arwel Ellis Owen a'r Athro Medwin Hughes***

# Colofn Chwaraeon Hywel Owen

## Llwyddiant i Glwb Pêl-Droed Cymric

Bu diwedd Mawrth yn gyfnod cyffrous ond yn y diwedd yn un torcalonnus i gefnogwyr tîm pêl droed Cymru yn y gemau ail gyfle i gyrraedd cystadleuaeth yr Ewros yn yr Almaen dros yr haf. Cafwyd buddugoliaeth wych drwy guro'r Ffindir o 4-1 ac roedd yr hyder yn uchel wrth wynebu Gwlad Pwyl y dydd Mawrth canlynol. Yn anffodus colli fu hanes Cymru wrth gwrs ar giciau o'r smotyn a bydd yn cymryd crŷn amser i gefnogwyr Cymru ddod dros y siom.

Mae diwedd y tymor pêl-droed wrth gwrs yn agosáu. Braf deall yn adroddiad Carwyn Eckley fod tymor Clwb Pêl droed Cymric yn parhau i fod yn un llwyddiannus.

Mae wedi bod yn dymor cryf i Glwb Cymric hyd yn hyn, gyda'r tîm cyntaf yn eistedd yn y trydydd safle yng nghynghrair y *South Wales Alliance* adeg ysgrifennu'r darn yma.

Ers y Nadolig, dydy'r tîm ond wedi colli un gêm allan o wyth, yn sgorio 25 gôl yn ystod y gemau hynny. Ymhlith y gemau yma oedd buddugoliaethau o 3-1 yn erbyn CPD Trefforest oddi cartref a 4-2 yn erbyn CPD Vale United - dau berfformiad da yn erbyn timau galluog. Ar hyn o bryd, rydan ni chwe phwynt oddi ar frig y tabl, er bod timau eraill efo rhywfaint o gemau dros ben i'w chwarae.

Rydan ni wedi bod yn anffodus yn ystod ein gemau diwethaf i ildio goliau'n hwyr a chael sawl gêm gyfartal yn hytrach nag ennill fyddai'n golygu ein bod ni hyd yn oed yn uwch yn y gynghrair.

Er hynny, mae'r tymor yma wedi bod yn un cadarnhaol iawn i'r clwb, wrth i nifer o hogia ifanc ymuno â ni ar gyfer eu tymor cyntaf a chyfrannu'n sylweddol at ein perfformiadau ar y cae. Mae'r cymysgedd o brofiad yn y tîm a'r wynebau newydd yn argoeli'n dda ar gyfer diwedd y tymor yma a'r tymhorau sydd i ddod.

Mae gennyn ni bedair gêm ar ôl, gan gynnwys gêm gartref olaf y tymor yn erbyn *CPD Aberfan* ar y 13eg o Ebrill yn arena *Ocean Park*, felly mi fyddai hi'n wych gweld cymaint o bobl â phosib yno i gefnogi'r hogia - mae croeso mawr i bawb a bar i dorri syched ar ôl y gêm!

Yn olaf, hoffai'r Clwb ddiolch o galon i'r *Dinesydd* am fod yn noddwyr inni'r tymor yma. Mae 'na gostau ynghlwm â rhedeg clwb gwirfoddol fel talu dyfarnwyr, prynu offer ymarfer, llogi caeau chwarae ac yn y blaen, felly rydan ni'n gwerthfawrogi cymorth *Y Dinesydd* yn fawr iawn.

*Carwyn Eckley*




**Cadwch mewn cysylltiad â'r *Dinesydd***
**ar Twitter drwy ddilyn ein cyfrif @DinesyddCdydd**
**ac ar Facebook drwy ddilyn www.facebook.com/YDinesydd**